Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

# CYNLLUN RHEOLI ASEDAU CORFFORAETHOL

2024-2030



Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg.

RHONDDA CYNON TAF

Awdur: **Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor**

*Yn dilyn ymgynghoriad â:*
Dirprwy Arweinydd ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor ac Eiddo'r Cyngor
Prif Weithredwr
Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen
Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth

# Cynnwys


1. **Rhagair gan Ddirprwy Arweinydd ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor ac Eiddo'r Cyngor** ........ 04

2. **Adran 1 Cyflwyniad a Chyd-destun Strategol**
   - Cyflwyniad ........ 06
   - Cyd-destun strategol ........ 08
   - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ........ 10

3. **Adran 2 Polisi Rheoli Asedau**
   - Ein Gweledigaeth ........ 12
   - Ein hamcanion ........ 12
   - Ein Dull o Reoli Ein Hasedau ........ 13
   - Adran Eiddo'r Cyngor: Gwasanaeth Galluogi ........ 15
   - Effaith Cydraddoldeb ........ 16

4. **Adran 3 Strategaeth Rheoli Asedau**
   - Ein Portffolio Adeiladau ........ 18
   - Ein Cyllid ........ 21
   - Cynnal ein Heiddo ........ 22
   - Galluogi ein Cymunedau ........ 24
   - Galluogi ein Meysydd Gwasanaeth ........ 26
   - Newid yn yr Hinsawdd: Datgarboneiddio ........ 32
   - Rheoli Cyflawniad ein Hasedau ........ 33
   - Trawsnewid: Herio ein Hasedau ........ 34
   - Cyflawni a Llywodraethu ........ 35

5. **Adran 4 Cynllun Gweithredu Gwaith Rheoli Asedau** ........ 38


52970-34 • Awst 2024

# Rhagair gan Ddirprwy Arweinydd ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor ac Eiddo'r Cyngor

Mae'n bleser gen i gyflwyno'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2024-2030 yma sy'n nodi ein gweledigaeth a'n cyfeiriad ar gyfer rheoli tir ac adeiladau'r Cyngor i gyd-fynd â'n Cynllun Corfforaethol “Gweithio gyda'n Cymunedau” 2024-2030.

Rydyn ni'n byw mewn cyfnod heriol yn economaidd ac yn amgylcheddol. Mae'r argyfwng costau byw yn effeithio ar ein trigolion, busnesau a chyllid y Cyngor. Rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd sicrhau'r incwm mwyaf posibl o'n hasedau eiddo, cynhyrchu derbyniadau cyfalaf a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd adfywio wrth gefnogi anghenion cymunedol a gwella cydnerthedd cymunedol. Rydyn ni'n parhau i fod wedi ymrwymo i chwarae rhan wrth fynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd a ddatganwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2019. Rydyn ni'n cydnabod yr heriau sydd o'n blaenau i gyrraedd y targed o fod yn garbon niwtral erbyn 2030 ac rydyn ni eisoes wedi buddsoddi adnoddau sylweddol i ddatgarboneiddio ein hasedau a byddwn ni'n parhau i wneud hynny drwy gydol cyfnod y Cynllun yma.

Trwy'r Cynllun yma, byddwn ni'n sicrhau bod ein hasedau eiddo yn cael eu defnyddio mewn ffordd gynaliadwy, i ddiwallu anghenion y Cyngor nawr ac yn y dyfodol, gan wneud y mwyaf o'r budd o'n tir a'n hadeiladau. Mae'n hanfodol ein bod ni'n gofalu am asedau eiddo ac yn eu defnyddio mewn modd a fydd o fudd i genedlaethau'r dyfodol.

Rwy'n hyderus y bydd y Cynllun yma'n hollbwysig o ran llywio'r camau gweithredu sydd eu hangen dros y chwe blynedd nesaf i gyflawni ein hamcanion a thros y tymor hwy i fynd i'r afael â heriau'r dyfodol a gwneud y mwyaf o gyfleoedd yn y dyfodol.

M. Webber.

**Y Cynghorydd Maureen Webber**

Dirprwy Arweinydd ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor ac Eiddo'r Cyngor



Adran

1

# Cyflwyniad a Chyd-destun Strategol

# Cyflwyniad

## Mae gan Awdurdodau Lleol ledled y DU bortffolio eiddo sylweddol (sy’n cynnwys tir ac adeiladau) sydd wedi’u caffael, eu rhoi neu eu hetifeddu dros nifer o flynyddoedd.

Dyw Rhondda Cynon Taf ddim yn wahanol, gyda phortffolio eiddo yn cynnwys 2357 o asedau tir ac adeiladu sy'n cyfateb i tua 40km2 ac yn werth £885 miliwn ar 31 Mawrth 2024*.

Elfen allweddol o gyflawni ein nodau fel Cyngor yw sicrhau ein bod ni'n Gyngor sy’n cael ei gynnal yn dda, sy’n rheoli ei adnoddau’n gynaliadwy ac yn ddoeth, ac mae hyn yn cynnwys ein tir a’n hadeiladau. Mae angen fframwaith strategol lefel uchel ar y Cyngor ar gyfer rheoli ei bortffolio eiddo amrywiol i sicrhau bod y sylfaen asedau yn cyd-fynd â nodau ac amcanion corfforaethol y Cyngor, a dyma ddiben y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol.

Roedd Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol blaenorol y Cyngor yn cwmpasu’r cyfnod 2018 i 2023. Yn ystod cyfnod y cynllun blaenorol, gwnaeth y Cyngor gynnydd sylweddol yn erbyn y ffrydiau gwaith allweddol a nodir yn y cynllun, er gwaethaf heriau heb eu tebyg pandemig COVID-19; cododd y Cyngor dros £10 miliwn mewn derbyniadau cyfalaf o werthu tir ac adeiladau dros ben, lleihau ôl troed ei swyddfeydd o draean, sefydlu 7 Canolfan Cydnerthedd y Gymuned, cwblhau 26 o Drosglwyddiadau Asedau Cymunedol gan ddenu dros £6.5 miliwn o gyllid a chwblhau 13 prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif.





Mae'r Cyngor wedi nodi ei gyfeiriad cyffredinol ar gyfer 2024-2030 yn ei Gynllun Corfforaethol “Gweithio gyda'n Cymunedau”.  I gefnogi hyn, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol newydd sy'n amlinellu ein gweledigaeth a'n dull o reoli ein hasedau eiddo yn strategol. Mae’r cynllun newydd yn cynnwys tair rhan glir y mae modd eu diweddaru ar wahân:

- **Polisi Rheoli Asedau**
- **Strategaeth Rheoli Asedau**
- **Cynllun Gweithredu Gwaith Rheoli Asedau**

Mantais y fframwaith yma yw na fydd angen diweddaru pob rhan ohono ar yr un pryd i barhau’n berthnasol, er y bydd amcanion yn cael eu hadolygu’n barhaus dros gyfnod y cynllun, er mwyn sicrhau bod y cynllun yn adlewyrchu ac yn cyd-fynd â’r blaenoriaethau corfforaethol sy’n datblygu. Mae'n debygol y bydd llawer o feysydd sy'n ymwneud â'n Polisi Rheoli Asedau a'n Strategaeth Rheoli Asedau yn aros yn sefydlog am sawl blwyddyn.

*gwerth llyfr net yn destun archwiliad.

**Mae'r Polisi Rheoli Asedau yn nodi:**

- Beth yw'r agwedd gorfforaethol neu agwedd tuag at ei asedau eiddo
- Ein Gweledigaeth ac Amcanion
- Pa egwyddorion sy'n mynd i gael eu dilyn a'r ymddygiadau disgwyliedig

**Mae'r Strategaeth Rheoli Asedau yn nodi:**

- Trosolwg o'r ystad tir ac eiddo
- Ein Blaenoriaethau
- Ble rydyn ni eisiau bod

**Mae'r Cynllun Gweithredu Gwaith Rheoli Asedau yn nodi:**

- Beth sydd angen i ni ei wneud i gyflawni ein hamcanion
- Y camau gweithredu penodol a'r meysydd ar gyfer sylw
- Sut rydyn ni am fonitro cynnydd yn erbyn yr amcanion strategol

Mae'r Cynllun Gweithredu Gwaith Rheoli Asedau yn cefnogi'r Strategaeth Rheoli Asedau, sy'n cynnwys cyfres o Ddangosyddion Cyflawniad Allweddol a Data Cyflawniad Asedau. Mae'r Cynllun Gweithredu Gwaith Rheoli Asedau yn ddogfen gyfredol a fydd yn cael ei defnyddio a'i haddasu i reoli ein rhaglenni gwaith rheoli asedau. Caiff y Dangosyddion Cyflawniad Allweddol a Data Cyflawniad Asedau eu defnyddio i fonitro ac adrodd ar gynnydd i'r Cabinet a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn erbyn yr amcanion strategol a gaiff eu nodi yn y Strategaeth Rheoli Asedau.

Mae angen i ni addasu ac ystwytho ein dull o reoli asedau i ymateb i amgylchiadau sy'n newid. Bydd y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol yn cael ei adrodd i'r Cabinet a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ddwywaith y flwyddyn i roi'r newyddion diweddaraf ar gynnydd ac i roi gwybod am unrhyw themâu a newidiadau sy'n dod i'r amlwg gan ddefnyddio Data Cyflawniad Asedau Allweddol.

Gan ddilyn cyfeiriad y Cynllun Corfforaethol newydd, mae'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol wedi'i lywio gan ymgysylltu ag Aelodau o'r Cabinet, Uwch Reolwyr y Cyngor a rheolwyr gwasanaeth mewn gwahanol feysydd gwasanaeth. Mae'r ymgysylltu yma'n darparu sylfaen gadarn ar gyfer perchnogaeth a rennir ar draws y Cyngor i sicrhau bod rheoli asedau yn parhau i fod â phroffil uchel ac yn cael ei yrru ar lefel strategol o fewn y Cyngor.

Mae cynnwys y Strategaeth hefyd wedi'i lywio gan ganfyddiadau Adolygiad Llamu Ymlaen 2022 Llywodraeth Cymru, a ganfu fod angen i'r Cyngor roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wraidd ei ystyriaethau wrth adnewyddu ei strategaeth a'i drefniadau ategol.



# Cyd-destun strategol

Dylai'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ategu cyfeiriad polisi strategol Rhondda Cynon Taf, sy'n dylanwadu'n uniongyrchol ar ddarparu gwasanaethau rheng flaen. Fe'i datblygwyd i gefnogi blaenoriaethau'r Cyngor fel y nodir yn ei gynlluniau a strategaethau corfforaethol amrywiol, gan gynnwys y Cynllun Corfforaethol, y rhaglen Gyfalaf a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Caiff hyn ei gynrychioli yn y graff isod:

**Ein Gweledigaeth yw datblygu portffolio eiddo sy'n gynaliadwy, yn ariannol ac yn amgylcheddol, sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel ac adfywio economaidd, sy'n gwarchod yr amgylchedd a natur, ac sy'n adeiladu cymunedau iach a chydnerth.**

Rheoli a chynnal a chadw tir ac adeiladau yn effeithlon, yn effeithiol, yn gydweithredol, ac yn gynaliadwy ynghyd â gwneud y gorau o gyfleoedd o resymoli a gwaredu tir ac adeiladau.

Defnyddio tir ac adeiladau i ysgogi datblygiad a thwf ynghyd â chefnogi anghenion cymunedol lleol.

Defnyddio tir ac adeiladau i gyfrannu at darged Carbon Niwtral y Cyngor.

Darparu'r eiddo iawn, sy'n addas at y diben, yn y lle iawn, i ddiwallu anghenion presennol y gwasanaeth ac i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

## Blaenoriaethau Rheoli Asedau


- Strategaeth Hinsawdd Ystyriol Rhondda Cynon Taf
- Strategaeth Swyddfeydd
- Polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol
- Strategaeth Adnewyddu Canol Trefi
- Cydymffurfio'n Statudol
- Rhaglen Derbyniadau Cyfalaf
- Strategaeth Cymorth Tai
- Strategaeth Gwasanaethau Oriau Dydd
- Plant sy'n Derbyn Gofal- Strategaeth Trawsnewid Gofal Preswyl
- Strategaeth Llety a Chymorth i'r rhai sy'n Gadael Gofal
- Strategaeth i foderneiddio opsiynau llety ar gyfer pobl hŷn a darparu tai gofal ychwanegol.
- Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant- Cynllun Strategol

## Hysbyswyd gan

- Y Cynllun Corfforaethol
- Y Cynllun Gweithlu
- Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Addewid y Bwrdd Rhianta Corfforaethol
- Strategaeth Ddigidol
- Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau
- Cynllun Datblygu Lleol
- Rhaglen Gyfalaf
- Deddfwriaeth
- Polisïau'r Llywodraeth
- Cyfrifoldebau Statudol
- Canllawiau Rheoli Asedau Corff Proffesiynol
- Cynllun Lles Cwm Taf Morgannwg
- Llamu Ymlaen – Adroddiad Rheoli Asedau Strategol Mehefin 2022

# Cynllun Corfforaethol

Caiff cyfeiriad cyffredinol y Cyngor ar gyfer 2024-2030 ei nodi yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor **“Gweithio gyda'n Cymunedau”**.



Gweledigaeth y Cyngor yw sicrhau bod Rhondda Cynon Taf yn lle sy'n caniatáu'r canlynol:

***Mae modd i bobl, cymunedau a busnesau dyfu a byw mewn Bwrdeistref Sirol iach, gwyrdd, diogel, bywiog a chynhwysol lle mae modd iddyn nhw gyflawni eu llawn botensial ym mhob agwedd ar eu bywydau a'u gwaith, nawr ac yn y dyfodol.***



Bwriad y Cyngor a'r rheswm dros ei fodolaeth:

***Darparu arweinyddiaeth gymunedol a chynnal gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel, gan weithio ochr yn ochr â thrigolion, cymunedau a'n partneriaid er mwyn i bobl, busnesau, a'r amgylchedd ffynnu.***

**Mae gan Gynllun Corfforaethol y Cyngor bedwar amcan Llesiant sydd bwysicaf i'n trigolion nawr ac yn y dyfodol.**

## POBL A CHYMUNEDAU

Cefnogi a grymuso trigolion a chymunedau Rhondda Cynon Taf i fyw bywydau diogel, iach a boddhaus.

## GWAITH A BUSNES

Helpu i gryfhau a thyfu economi Rhondda Cynon Taf.




## BYD NATUR A'R AMGYLCHEDD

Rhondda Cynon Taf gwyrdd a glân sy'n gwella ac yn gwarchod yr amgylchedd a byd natur.

## DIWYLLIANT, TREFTADAETH A'R GYMRAEG

Cydnabod a dathlu gorffennol, presennol a dyfodol Rhondda Cynon Taf.

Rydyn ni'n deall bod ein portffolio tir ac adeiladau yn elfen hanfodol o gyflawni gweledigaeth y Cynllun Corfforaethol a'i ymrwymiadau i:

- **Rheoli ein gweithlu, cyllidebau, tir, adeiladau, cerbydau a gwybodaeth i wneud y mwyaf o'n heffeithlonrwydd a gwneud y gwahaniaeth mwyaf i'n cymunedau, byd natur a'r amgylchedd.**
- **Lleihau Ôl Troed Carbon y Cyngor ac yn dod yn Gyngor Carbon Niwtral erbyn 2030.**

# Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

## Wrth baratoi’r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol, rydyn ni wedi ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, gan sicrhau nad yw’r penderfyniadau a wneir, a’r camau a gaiff eu cymryd heddiw, ar draul y cenedlaethau sy’n ein dilyn.

Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yw’r ddeddfwriaeth sylfaenol sy’n ei gwneud yn ofynnol inni gyflawni datblygu cynaliadwy. Rydyn ni wedi cymhwyso’r 5 ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf wrth ddatblygu ein cynllun. Nodir i ba raddau rydyn ni wedi ymgorffori’r rhain isod:


| Egwyddor Datblygu Cynaliadwy | Sut mae'r egwyddorion yma wedi llywio datblygiad y Cynllun |
|---|---|
| **Cynaliadwy tymor hir**<br>Cydbwyso anghenion y tymor byr â'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol | Mae'r Cynllun yn cefnogi'r gwaith o weithredu technolegau adnewyddadwy a charbon isel i leihau'r defnydd o ynni. Bydd y gwaith o resymoli’r portffolio gweithredol yn parhau, a byddwn ni'n parhau i gefnogi gweithgareddau economaidd ac adfywiol drwy ailddatblygu canol ein trefi. |
| **Cydweithredu**<br>Gweithio gyda'n gilydd â phartneriaid eraill i gyflawni ein hamcanion | Rydyn ni'n parhau i ddod ag ystod o wasanaethau ynghyd, gan gynnwys y rheiny a gaiff eu darparu gan y sector cyhoeddus, sefydliadau preifat a gwirfoddol, a grwpiau cymunedol trwy ein Canolfannau Cydnerthedd y Gymuned. Byddwn ni'n parhau i weithio gyda'n partneriaid i chwilio am gyfleoedd i wneud y defnydd gorau o'r Ystad Gyhoeddus i gefnogi cymunedau a thrigolion. |
| **Cynnwys**<br>Cynnwys personau eraill sydd â diddordeb a cheisio eu barn | Bydd y Polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn cael ei adolygu, gan weithio gyda phartïon â diddordeb i ddatblygu model yn seiliedig ar arfer gorau. Rydyn ni'n gweithio gydag aelodau lleol, grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid eraill wrth waredu neu ailbwrpasu asedau dros ben. Rydyn ni'n sicrhau ein bod ni'n cael ac yn gwrando ar farn y rhai yn ein cymunedau, dinasyddion, a staff, sydd â nodweddion gwarchodedig a’r rhai yr effeithir arnyn nhw gan anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau a pholisïau rheoli asedau. |
| **Atal**<br>Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu | Byddwn ni'n cynnal asedau eiddo mewn cyflwr da ac yn unol â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ddiogel ac yn addas at y diben. Rydyn ni wrthi'n chwilio am gyfleoedd i leihau'r defnydd o ynni, costau gweithredu a C02. Byddwn ni'n gweithio gyda grwpiau cymunedol lleol i gyflawni Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol o asedau dros ben i ddarparu adnoddau cymunedol ychwanegol. Byddwn ni'n helpu i gryfhau ein heconomi drwy ddefnyddio asedau i adfywio canol ein trefi. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried yr effaith ar yr holl nodau llesiant ac ar gyrff eraill gyda'n gilydd | Egwyddorion Llesiant yw sylfaen strategaethau a chynlluniau’r Cyngor a fydd yn eu tro yn siapio’r hyn sydd ei angen o’n tir a’n hadeiladau dros y ddegawd bresennol a thu hwnt. |

Adran

# 2

# Polisi Rheoli Asedau

Mae'r Polisi Rheoli Asedau yn nodi ein Gweledigaeth ar gyfer ein portffolio eiddo a ategir gan 4 amcan polisi. Mae'r 4 amcan polisi yn disgrifio ymrwymiad y Cyngor i reoli asedau eiddo ac i gyflawni'r buddion y mae modd eu cyflawni trwy ddefnyddio'r portffolio yn effeithiol.



**Ein Gweledigaeth** yw datblygu portffolio eiddo sy'n gynaliadwy, yn ariannol ac yn amgylcheddol, sy'n cefnogi darparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel ac adfywio economaidd, sy'n diogelu'r amgylchedd a natur, ac yn adeiladu cymunedau iach a chydnerth.

# **Ein** hamcanion:

## Amcan **1**

### Rheoli Asedau ac Ystadau yn Effeithiol

Byddwn ni'n rheoli ac yn cynnal a chadw tir ac adeiladau yn effeithlon, yn effeithiol, yn gydweithredol ac yn gynaliadwy.



## Amcan **2**

### Manteisio i'r Eithaf ar Adfywio a Chydnerthedd Gymunedol

Byddwn ni'n defnyddio tir ac adeiladau i ysgogi datblygiad a thwf, ynghyd â chefnogi anghenion cymunedau lleol.



## Amcan **3**

### Lleihau Effaith Amgylcheddol yr Ystad

Byddwn ni'n defnyddio tir ac adeiladau i gyfrannu at darged Carbon Niwtral y Cyngor.




## Amcan **4**

### Ystad Effeithlon a Phriodol

Darparu'r eiddo iawn, sy'n addas i'r diben, yn y lle iawn, i ddiwallu'r anghenion gwasanaeth presennol a chynllunio ar gyfer y dyfodol, ynghyd â manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd o resymoli a gwaredu tir ac adeiladau.





# Ein Dull o Reoli Ein Hasedau

Wrth ddatblygu'r amcanion yma mae rhai camau gweithredu a dulliau gweithredu y mae angen inni eu mabwysiadu mewn perthynas â'n tir a'n hadeiladau.

Mae'r rhain wedi'u nodi o dan bob amcan, ond nid mewn trefn flaenoriaeth benodol. Derbynnir hefyd y bydd adegau pan fydd rhai o'r elfennau yma'n ymddangos fel pe baent yn gorgyffwrdd neu'n gwrthdaro. Yr her allweddol i'r Cyngor yw sicrhau ein bod ni'n cynnal cydbwysedd priodol rhwng yr holl elfennau yma wrth i benderfyniadau ynghylch tir ac adeiladau gael eu gwneud.

## Amcan 1

## Rheoli Asedau ac Ystadau'n effeithiol

**Rheoli a chynnal tir ac adeiladau yn effeithlon, yn effeithiol, yn gydweithredol ac yn gynaliadwy.**

- Byddwn ni'n ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy drwy ein prosesau rheoli asedau drwy sicrhau bod yr ystad wedi'i dylunio i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol.
- Byddwn ni'n nodi pan nad oes angen lle mwyach a byddwn ni'n herio'r defnydd presennol o asedau gan arwain at resymoli a gwaredu ein tir a'n hadeiladau lle bo'n briodol.
- Byddwn ni'n sicrhau bod eiddo mor gynaliadwy â phosibl o ran dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw.
- Byddwn ni'n sicrhau bod eiddo yn ddiogel, yn ddiogel i'w ddefnyddio ac yn bodloni gofynion statudol.
- Byddwn ni'n gweithio gyda'r Uned Gwasanaethau Cymraeg i sicrhau bod ein hadeiladau yn cydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg.
- Byddwn ni'n blaenoriaethu gwaith i asedau a allai effeithio ar wasanaethau a gaiff eu darparu gan y Cyngor os na chaiff ei wneud.
- Byddwn ni'n cynnal rhaglen o arolygon cyflwr ar draws yr ystad adeiledig gyfan.
- Byddwn ni'n chwilio am gyfleoedd i rannu'r gofod sydd ar gael gyda chyrff eraill yn y Sector Cyhoeddus a'r Trydydd Sector pan fydd hynny'n fuddiol.
- Byddwn ni'n cydnabod pwysigrwydd cydweithio â chyrff eraill yn y Sector Cyhoeddus i adeiladu Cymru gryfach, wyrddach, iachach a mwy cynaliadwy.
- Byddwn ni'n sicrhau bod y data cywir yn cael ei gasglu i lywio penderfyniadau gwell.

## Amcan 2

## Manteisio i'r eithaf ar adfywio a chydnerthedd y gymuned.

**Defnyddio tir ac adeiladau i ysgogi datblygiad a thwf ynghyd â chefnogi anghenion cymunedol lleol.**

- Byddwn ni'n defnyddio asedau i ysgogi a chefnogi adfywio a mewnfuddsoddi.
- Byddwn ni'n nodi safleoedd posibl y mae modd eu dwyn ymlaen i'w datblygu.
- Byddwn ni'n nodi ac yn mynd ar drywydd cyfleoedd i gynhyrchu derbyniadau cyfalaf o waredu eiddo dros ben.
- Byddwn ni'n caffael safleoedd allweddol i gefnogi Adfywio Canol Trefi pan fo'r cyfle'n codi.
- Byddwn ni'n nodi tir ac adeiladau y mae modd eu defnyddio er budd ein cymunedau o dan y Polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol.
- Byddwn ni'n gweithio ar y cyd â chymunedau i wneud y defnydd gorau o asedau pan fyddan nhw'n fuddiol.
- Byddwn ni'n defnyddio ein tir a'n hadeiladau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel ei bod yn ffynnu yn ein cartrefi a'n cymunedau.
- Byddwn ni'n darparu'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

## Amcan 3

## Lleihau Effaith Amgylcheddol Eiddo

**Defnyddio tir ac adeiladau i gyfrannu at darged Carbon Niwtral y Cyngor.**

- Byddwn ni'n lleihau Ôl Troed Carbon y Cyngor
- Byddwn ni'n defnyddio ynni adnewyddadwy lle bo'n briodol.
- Byddwn ni'n anelu at leihau'r defnydd o ynni a dŵr, ac allyriadau CO2, gan ddefnyddio ynni adnewyddadwy lle bo'n briodol.
- Byddwn ni'n rheoli ac yn defnyddio ein tir, ein hadeiladau, ac asedau eraill i gefnogi gwaith i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

## Amcan 4

## Eiddo Effeithlon a Phriodol

**Darparu'r eiddo iawn, sy'n addas i'r diben, yn y lle iawn, i ddiwallu anghenion gwasanaeth presennol a chynllunio ar gyfer y dyfodol ynghyd â manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd o resymoli a gwaredu tir ac adeiladau.**

- Byddwn ni'n parhau i adolygu ein data sylfaen asedau craidd i gynorthwyo a llywio ein prosesau gwneud penderfyniadau.
- Byddwn ni'n sicrhau bod eiddo yn addas ac yn ddigonol ar gyfer darparu gwasanaeth.
- Byddwn ni'n sicrhau bod eiddo yn hyblyg ac yn cael ei gynllunio i ymateb i anghenion y dyfodol.
- Byddwn ni'n gweithio gyda gwasanaethau i ddeall eu gofynion tymor hwy i gynllunio ar gyfer y dyfodol.
- Byddwn ni'n sicrhau bod ein hymagwedd yn cynnwys pawb ac yn darparu amgylcheddau priodol a diogel ar gyfer yr holl staff, trigolion a defnyddwyr gwasanaethau.
- Byddwn ni'n mynd ati i geisio arbedion effeithlonrwydd o ran deiliadaeth a defnydd a grëir gan y defnydd cynyddol o dechnoleg ddigidol a'r ffyrdd newyddion o weithio.



# **Adran Eiddo'r Cyngor:** Gwasanaeth Galluogi

## Er mwyn cyflawni yn erbyn yr amcanion, cydnabyddir bod yn rhaid mabwysiadu'r diwylliant, systemau a phrosesau, adnoddau a sgiliau cywir a'u gwreiddio.

Bydd y gwasanaeth yn adeiladu ar ei lwyddiant hyd yma, gan fabwysiadu nifer o werthoedd galluogi carfan benodol i ddarparu fframwaith i sicrhau bod ein gwasanaethau'n cyflawni Blaenoriaethau'r Cyngor.

### Byddwn ni'n:

#### Cefnogi Llwyddiant Gwasanaethau – Ychwanegu Gwerth

Mae llwyddiant Gwasanaethau'r Cyngor yn hanfodol. Ein nod yw ychwanegu gwerth a rhagori ar ddisgwyliadau gyda phob rhyngweithiad. Bydd ein gwasanaeth yn galluogi gwasanaethau eraill i dyfu a bod yn llwyddiannus. Byddwn ni'n dathlu ac yn hyrwyddo ein llwyddiant.

#### Gwneud Pethau

Byddwn ni'n herio ein hunain ac yn cefnogi ein gilydd i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Byddwn ni'n croesawu technolegau newydd yn llawn i symleiddio ac awtomeiddio prosesau, lleihau tasgau gweinyddol, a gwella cyfathrebu.

#### Gwella

Byddwn ni bob amser yn ceisio gwneud pethau'n well. Byddwn ni'n cael ac yn adolygu adborth gan ein hadrannau cleient a'r cyhoedd ac yn gweithredu ar yr adborth a gaiff ei dderbyn.

Byddwn ni'n casglu ac yn defnyddio data i roi cipolwg ar gyflawniad gwasanaethau.

#### Arloesi

Byddwn ni'n galluogi arloesi ar gyfer denu incwm a chreu effeithlonrwydd. Byddwn ni'n cefnogi'r ffyrdd newydd o weithio. Byddwn ni'n mynd ati i chwilio am gyfleoedd i wneud pethau'n wahanol.



# Effaith ar Gydraddoldeb

Mae gan y Cyngor Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni, wrth arfer ein swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, erledigaeth, ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010; hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydyn nhw'n ei rhannu.

Bydd ymagwedd gorfforaethol tuag at ein hasedau eiddo yn cynyddu ein goruchwyliaeth ar ddinasyddion a staff sydd â nodweddion gwarchodedig, anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol, a ffynonellau anghydraddoldeb nad ydyn nhw wedi'u cynnwys yn benodol yn y Ddeddf Cydraddoldeb.

Drwy ddeall yn well anghenion ein cymunedau a’r rhwystrau y maen nhw'n eu hwynebu i ffynnu, mae modd i ni gymryd camau i leihau’r anghydraddoldebau sy’n bodoli yn ein cymunedau, hyrwyddo cymunedau diogel, a chreu gweithlu cynhwysol.

Mae Strategaeth Toiledau Lleol 2019-2023 yn enghraifft gadarnhaol o ddefnyddio asedau i hyrwyddo cyfle cyfartal wrth ddarparu cyfleusterau priodol, hygyrch ac effeithiol ar gyfer pob rhan o’r gymuned. Rydyn ni wedi sicrhau bod nifer o Leoedd Newid (cyfleusterau ar gyfer unigolion ag amrywiaeth o anableddau a symudedd cyfyngedig nad oes modd iddyn nhw gael mynediad at doiledau anabl) ar gael ledled y Fwrdeistref Sirol.

Byddwn ni'n cryfhau ein hymagwedd at reoli asedau i wneud gwahaniaeth i'n holl drigolion.

Adran

# 3

# Strategaeth Rheoli Asedau

Mae'r Strategaeth Rheoli Asedau yn rhoi trosolwg o'n tir ac eiddo, ynghyd â'n prif flaenoriaethau ar gyfer rheoli a datblygu'r eiddo hwnnw dros y 6 blynedd nesaf.

# Ein Portffolio Eiddo

## Mae ein portffolio eiddo yn adnodd gwerthfawr sy’n cwmpasu 2,359 o asedau tir ac adeiladau rhestredig ar wahân gyda gwerth cyfredol o £885 miliwn o 31 Mawrth 2024.

Mae ystod eang o asedau o fewn ein portffolio presennol. Mae'n cynnwys swyddfeydd, canolfannau oriau dydd, cartrefi preswyl, cartrefi plant, ysgolion, depos, asedau a brydlesir i sefydliadau cymunedol, parciau, llyfrgelloedd, a chanolfannau hamdden. Mae asedau yn darparu cymysgedd o wasanaethau rheng flaen a darpariaeth gwasanaethau anuniongyrchol ac wrth gefnogi ein cymunedau lleol.

Mae ein portffolio eiddo yn cael ei reoli’n ofalus gan fod potensial i wastraffu arian drwy gadw adeiladau nad ydyn nhw'n addas i’w defnyddio neu nad oes eu hangen mwyach. Yn yr un modd mae gan bob ased werth ac os nad oes eu hangen mwyach, efallai y bydd modd i ni eu gwerthu i ddatgloi’r gwerth hwnnw a defnyddio neu fuddsoddi’r arian yn rhywle arall neu geisio trosglwyddo’r ased er budd y gymuned.

Wrth i ni newid y ffordd rydyn ni'n darparu gwasanaethau, mae angen i'n hasedau newid i gefnogi'r Cyngor wrth iddo symud ymlaen. Mae'n bosibl y bydd angen i ni fuddsoddi mewn asedau newydd i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau sy'n addas ar gyfer y dyfodol ac i sicrhau'r manteision mwyaf posibl i drigolion Rhondda Cynon Taf.

Mae prosesau ar waith i sicrhau bod ein hadeiladau yn cael eu cynnal yn effeithlon o ddydd i ddydd. Mae'r rhaglen cynnal a chadw yn sicrhau bod gwaith cyfalaf yn cael ei flaenoriaethu a'i alinio â blaenoriaethau corfforaethol a gweithredol i gefnogi sicrhau'r gwerth gorau am arian.


Bydd ein proses Adolygu a Herio Asedau newydd yn golygu ein bod yn adolygu pob ased ar raglen dreigl i sicrhau ein bod ond yn cadw’r tir a’r adeiladau sydd eu hangen arnom yn y dyfodol tra’n chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio ein hasedau i wneud gwahaniaeth i’n cymunedau a’r amgylchedd. Mae'r broses yma'n archwilio'r defnydd o asedau, ynghyd â dadansoddiad o gostau rhedeg a chynnal a chadw, effaith carbon, a lleoliad daearyddol.



| Math o Ased | Nifer |
|---|---|
| Rhandiroedd | 72 |
| Ased yn cael ei adeiladu | 2 |
| Pontydd | 3 |
| Gorsafoedd Bysiau | 4 |
| Safle Carafanau | 1 |
| Mynwentydd ac Amlosgfeydd | 16 |
| Cartrefi i Blant | 8 |
| Canolfannau Cymuned | 48 |
| Canolfannau oriau dydd | 11 |
| Meithrinfeydd oriau dydd | 9 |
| Depos a Gweithdai | 14 |
| Canolfannau galw heibio | 2 |
| Troedffyrdd a Llwybrau | 162 |
| Safleoedd Garej | 99 |
| Priffordd | 359 |
| Safleoedd Hanesyddol | 2 |
| Cartrefi i'r Henoed | 9 |
| Eiddo Buddsoddi | 3 |
| Cyfleusterau Cegin | 1 |

| Math o Ased | Nifer |
|---|---|
| Adfer | 409 |
| Safleoedd ar Brydles | 37 |
| Safleoedd Llyfrgell | 8 |
| Amgueddfeydd ac Orielau | 2 |
| Meysydd Parcio oddi ar y stryd | 90 |
| Swyddfeydd | 22 |
| Parciau | 297 |
| Mannau Chwarae | 30 |
| Toiledau Cyhoeddus | 40 |
| Safleoedd preswyl | 42 |
| Safleoedd ysgolion | 120 |
| Canolfannau Chwaraeon | 13 |
| Cyfleusterau Chwaraeon | 20 |
| Storfeydd | 6 |
| Safleoedd Dros ben | 183 |
| Theatrau | 2 |
| Ymylon | 179 |
| Gweithiau Celf/Cerfluniau | 31 |
| Canolfan Ieuenctid | 1 |
| **Total** | **2357** |

Mae'r diagram isod yn dangos sut mae asedau eiddo'r Cyngor yn cael eu rhannu rhwng Gwasanaethau'r Cyngor:




**Ffyniant a Datblygiad**
Nifer yr adeiladau: **4**
% o adeiladau: **0**

**Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd**
Nifer yr adeiladau: **8**
% o adeiladau: **1**

**Hamdden, Chwaraeon a Pharciau**
Nifer yr adeiladau: **314**
% o adeiladau: **32**

**Gwasanaethau Diogelwch yn y Gymuned a Gwasanaethau Tai**
Nifer yr adeiladau: **4**
% o adeiladau: **1**

**Gwasanaethau yn y Gymuned a Gwasanaethau Cymraeg**
Nifer yr adeiladau: **71**
% o adeiladau: **7**

**Y Priffyrdd a Pheirianneg**
Nifer yr adeiladau: **21**
% o adeiladau: **2**

**Materion Strategaeth a Buddsoddiadau Tai**
Nifer yr adeiladau: **6**
% o adeiladau: **1**

**Cyllid a Gwasanaethau Digidol**
Nifer yr adeiladau: **1**
% o adeiladau: **0**

**Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant**
Nifer yr adeiladau: **2**
% o adeiladau: **0**

**Gwasanaethau Gofal y Strydoedd**
Nifer yr adeiladau: **71**
% o adeiladau: **7**

**Gwasanaethau i Blant**
Nifer yr adeiladau: **42**
% o adeiladau: **4**

**Gwasanaethau i Oedolion**
Nifer yr adeiladau: **47**
% o adeiladau: **5**

**Ysgolion yr 21ain Ganrif**
Nifer yr adeiladau: **338**
% o adeiladau: **35**

**Eiddo'r Cyngor**
Nifer yr adeiladau: **109**
% o adeiladau: **11**


**Cefn Gwlad**
Nifer yr adeiladau: **1**
% o adeiladau: **0**

# Ein Cyllid

## Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, fel llawer o gynghorau eraill, wedi profi gostyngiadau cyllid sylweddol ac mae angen i ni wneud dewisiadau gofalus pan fyddwn ni'n blaenoriaethu'r arian rydyn ni'n ei wario. Mae angen inni sicrhau bod pob punt rydyn ni'n ei wario yn cael ei wario yn y ffordd gywir.

Mae gan y Cyngor heriau o ran oedran, cyflwr ac addasrwydd ei bortffolio. Mae gyda ni ffigwr ôl-groniad cynnal a chadw o dros £74 miliwn.

Er gwaethaf yr heriau ariannol, mae gan y Cyngor hanes da ac mae wedi ymrwymo i gefnogi twf economaidd y Fwrdeistref Sirol, gan annog adfywio a buddsoddiad trwy ei raglen gyfalaf. Mae datblygu yn chwarae rhan bwysig yn hyn, ac mae buddsoddiad cyfalaf y Cyngor yn denu buddsoddiad mewnol pellach. Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm y gwariant cyfalaf blynyddol o 2015/16 i 2022/2023.




Cytunwyd ar Raglen Gyfalaf 3 Blynedd y Cyngor ar gyfer 2024 – 2027 gan y ***Cyngor ar 6 Mawrth 2024***. Mae'r rhaglen yn cynrychioli cyfanswm buddsoddiad gwerth £165.630 miliwn dros y cyfnod o dair blynedd ac mae'n cynnwys £19 miliwn o flaenoriaethau buddsoddi penodol. Mae prif ddyraniadau'r gyllideb gyfalaf fel a ganlyn:

- **£11 miliwn mewn Ystadau Corfforaethol i sicrhau safonau uchel o iechyd a diogelwch ac effeithlonrwydd gweithredol o fewn adeiladau. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad gwerth £7 miliwn yn Fferm Solar Coed Elái**
- **£43 miliwn mewn Ffyniant a Datblygiad i barhau ag ymrwymiad ariannu hirdymor mewn adfywio economaidd, i fwrw ymlaen â chynlluniau a fydd yn gwella cefn gwlad ac i barhau i gyflawni cynlluniau tai sector preifat.**
- **£52 miliwn mewn Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen yn cefnogi systemau craidd y Cyngor a buddsoddiad parhaus mewn priffyrdd, trafnidiaeth strategol, draenio a chynlluniau lliniaru llifogydd, gwelliannau i seilwaith parciau, strategaeth rheoli gwastraff ac amnewid cerbydau.**
- **£46 miliwn mewn Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant i gefnogi rhaglen buddsoddi strategol hirdymor y Cyngor i foderneiddio ysgolion, creu amgylcheddau sy'n diwallu anghenion disgyblion a'n cymunedau, darparu'r ddarpariaeth ddysgu orau a chefnogi deilliannau cadarnhaol i bobl ifainc a'r gymuned ehangach.**
- **£14 miliwn yng Nghyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant i barhau â gwaith adnewyddu a gwella hanfodol i sefydliadau gwasanaethau oedolion a phlant y Cyngor, gan gynnwys y rhaglen gofal ychwanegol a'r rhaglenni treigl parhaus ar gyfer mynwentydd a mesurau diogelwch cymunedol a gwaith gwella mewn canolfannau hamdden a mannau chwarae.**

# Cynnal Ein Heiddo

## Cynnal a Chadw/Gwasanaethu Adweithiol, Statudol a Chynlluniedig (Cyfleusterau Caled)

Ein strategaeth gyffredinol yw sicrhau bod ein hadnoddau cynnal a chadw cyfyngedig sy'n lleihau yn cael eu blaenoriaethu i adeiladau priodol, lle mae angen yr arian fwyaf.

Ein tri nod allweddol ar gyfer cynnal ein heiddo yw:

- **Sicrhau bod ein hadeiladau yn ddiogel, yn ddiogel rhag y tywydd ac yn gynnes i bobl eu defnyddio.**
- **Dyrannu cyllid i brosiectau a fydd yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf posibl ar gyfer darparu gwasanaethau.**
- **Sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf yn y ffordd rydyn ni'n caffael gwaith cynnal a chadw adeiladau.**



Er mwyn sicrhau bod y portffolio asedau yn cydymffurfio â gofynion statudol, caiff archwiliadau ac adolygiadau rheolaidd o eiddo eu cynnal. Y rheswm am hyn yw bod dyletswydd ar y Cyngor i reoli'r risg ac asesu effaith rheoliadau statudol ar ei asedau mewn perthynas ag Asbestos a Legionella, yn ogystal â chydymffurfio â Rheoliadau Tân a gofynion iechyd a diogelwch eraill.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal a chadw cyfanswm o 458 o safleoedd sy'n darparu neu'n cefnogi gwasanaethau gweithredol y Cyngor. Cyfrifoldeb y meysydd gwasanaeth unigol sy'n dal y portffolio yw'r cyllid ar gyfer y rhaglen gynnal a chadw. Mae Carfan Cynnal a Chadw Corfforaethol y Cyngor, yn rhan o'r Is-adran Eiddo'r Cyngor, yn gweithio'n agos gyda Chyfarwyddwyr a rheolwyr meysydd gwasanaeth i nodi meysydd buddsoddi ar gyfer atgyweirio/adnewyddu neu wella.

Mae'r meysydd gwasanaeth yn cyflwyno cynigion am gyllid yn seiliedig ar gynllun gwariant ymlaen llaw 3 i 5 mlynedd. Trafodir y cyllid a ddyrannwyd gyda'r Garfan Cynnal a Chadw Corfforaethol a chytunir ar raglen gyflawni ar gyfer prosiectau.

Mae'r gyllideb sydd ar gael i gefnogi'r Rhaglen Cynnal a Chadw ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod ar hyn o bryd gwerth tua £13 miliwn. Yn ogystal â hyn, mae nifer o brosiectau a Ariennir gan Grant y mae'r Cyngor yn llwyddiannus yn eu sicrhau bob blwyddyn. Mae'r Garfan Cynnal a Chadw Corfforaethol yn darparu arbenigedd technegol wrth gyflawni prosiectau o'r fath.

Yn ystod 23/24 roedd y Garfan Cynnal a Chadw Corfforaethol â chyfrifoldeb am reoli cyfleusterau caled:

- **Cyhoeddwyd tua £14,000 o archebion gwaith gwerth tua £25 miliwn.**
- **Ymatebodd i bron i 300 o alwadau ymateb Brys y Tu Allan i Oriau Gwaith.**

Mae'r Contract Tymor Cynnal a Chadw Ymatebol yn cael ei gynnal am 3 blynedd gan ddod i ben ym mis Chwefror 2026 (gan ganiatáu ar gyfer estyniad blwyddyn posibl). Mae'r contract yn gweithredu ar raniad dwyrain/gorllewin y Fwrdeistref Sirol ac yn darparu cefnogaeth sylweddol gan gontractwyr lleol, gan gyflawni gofynion gwasanaeth cymhleth a phenodol ar draws portffolio eiddo'r Cyngor.

Mae'r Gwasanaeth Addysg yn gweithredu 'Cytundeb Lefel Gwasanaeth' (CLG) gydag ysgolion, gan hwyluso gwaith i'w wneud gan y Garfan Cynnal a Chadw Corfforaethol. Mae'r CLG yn nodi cyfrifoldeb ariannu rhwng yr Awdurdod Addysg Lleol (AALl) neu ysgolion. Newidiodd y dosraniad ariannol yn 2014 o'r dyraniad o 70%-30% o blaid ysgolion i 70%- 30% o blaid yr AALl. Cafodd hyn ei newid oherwydd methiant ysgolion i fuddsoddi'r cyllid a gafodd ei neilltuo ar gyfer cynnal gwaith cynnal a chadw i eiddo a arweiniodd at ddirywiad cynyddol mewn adeiladau. Cynyddodd cyllid ar gyfer cynnal a chadw eiddo ac mae wedi arwain at welliannau i bortffolio'r ysgol.

Mae cyllid o'r CLG i ysgolion oddeutu £1.5 miliwn ac yn seiliedig ar y rhaniad 70/30 fel yr uchod, sy'n ymwneud ag oddeutu £1.05 miliwn o gyllid ychwanegol gan yr AALl a £450,000 i ysgolion fuddsoddi yn eu hadeiladau ar gyfer atgyweiriadau/gwelliannau.

Er gwaethaf yr ymdrechion i gynnal adeiladau gyda gwariant wedi'i dargedu i gynnal ethos 'diogel, yn ddiogel rhag y tywydd a chynnes' ar draws portffolio'r Cyngor, mae ffigwr ôl-groniad cynnal a chadw o ychydig dros £74 miliwn. Bydd Strategaeth Swyddfeydd y Cyngor a Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yr adran Addysg yn cael effaith gadarnhaol trwy leihau'r ffigwr yma.

Mae cydymffurfiaeth asbestos a Legionella yn cael ei monitro'n agos i roi arwydd cynnar o unrhyw risg bosibl i ddefnyddwyr yr adeilad. Ein nod yw cyrraedd targed cydymffurfio o 95% yn erbyn pob categori rydyn ni wedi'i gyflawni'n gyson.

Mae'n hanfodol bwysig, oherwydd y pwysau ariannol presennol, bod agwedd gytbwys tuag at y broses Adolygu a Herio Asedau er mwyn sicrhau ein bod yn buddsoddi yn yr asedau hynny sydd eu hangen arnom ni ac yn cael gwared ar y rhai nad oes eu hangen arnom ni mwyach.

## Glanhau Cyfleusterau

Mae'r garfan Glanhau Cyfleusterau yn gyfrifol am lanhau 20 o adeiladau Addysgol, gan gynnwys ysgolion, 54 o swyddfeydd (gan gynnwys Learning Curve), 18 o doiledau cyhoeddus a 23 troethfa ledled y Fwrdeistref Sirol.







# Galluogi ein Cymunedau

## Trosglwyddo Asedau Cymunedol

### Rydyn ni wedi trosglwyddo cyfanswm o 36 o asedau i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol drwy Drosglwyddiadau Asedau Cymunedol. Mae'r rhan fwyaf o'r trosglwyddiadau ar ffurf prydlesi hirdymor.

Yn ystod y cyfnod 2018 i 2023 roedd 26 o Drosglwyddiadau Asedau Cymunedol. Arweiniodd hyn at dros £6.5 miliwn o gyllid gan gynnwys cyllid Troslgwyddo.

Yn aml, pobl leol sydd yn y sefyllfa orau i reoli cyfleusterau cymunedol yn eu hardal gan fod gyda nhw'r wybodaeth leol a rheolaeth ymarferol i wneud y defnydd gorau o'r asedau ar gyfer eu cymuned. Mae sefydliadau cymunedol hefyd yn defnyddio gwirfoddolwyr ac yn ymfalchïo yn eu hardal leol.

Gall rheoli'r cyfleusterau yma helpu i rymuso cymunedau lleol a gall ddod â chyfleoedd ar gyfer mwy o annibyniaeth a chynaliadwyedd ariannol. Pan gaiff ei wneud yn dda, gall Trosglwyddo Asedau Cymunedol greu newid parhaol mewn cymunedau lleol.

Rydyn ni wedi ymrwymo i archwilio sut y mae modd i ni ddefnyddio ein hasedau er budd partneriaethau hirdymor gyda sefydliadau cymunedol addas i greu cymunedau cryfach, mwy cydlynol. Mae'r Cyngor yn cefnogi grwpiau cymunedol drwy weithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau a chyllidwyr allweddol i sicrhau bod gan grwpiau cymunedol y gallu a'r adnoddau i gymryd drosodd rheolaeth neu berchnogaeth adeiladau neu dir y Cyngor dros ben.

Rydyn ni'n cydnabod yr heriau y mae grwpiau cymunedol yn eu hwynebu wrth gymryd ased, a byddwn yn cefnogi'r grwpiau cymunedol drwy'r broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol a thu hwnt. Byddwn ni'n archwilio sut y gall grwpiau cymunedol fanteisio ar becyn cymorth cydgysylltiedig, heb gynnwys cymorth ariannol, nid yn unig drwy'r broses ymgeisio, ond drwy reolaeth barhaus neu berchnogaeth yr ased.



# Clybiau Chwaraeon

**Rydyn ni wedi ymrwymo'n llwyr i gefnogi clybiau chwaraeon i brydlesu caeau chwarae, gan helpu i'w hamddiffyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r rhan fwyaf o'r trosglwyddiadau ar ffurf prydlesi hirdymor sy'n galluogi'r clybiau chwaraeon i ddenu cyllid grant allanol i gadw, cynnal a datblygu'r ased ar gyfer eu cymunedau, a sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n gynaliadwy yn y tymor hir.**

Mae gwella a datblygu cyfleusterau chwaraeon newydd mewn cymunedau lleol yn sicrhau bod modd i drigolion gymryd rhan mewn chwaraeon, gan wella eu hiechyd corfforol a meddyliol.

Rydyn ni wedi ymrwymo'n llwyr i ddefnyddio ein hasedau i ffurfio partneriaethau hirdymor gyda chlybiau chwaraeon addas i hyrwyddo a galluogi mynediad i ystod o gyfleusterau sy'n cefnogi'r holl drigolion i wella eu lles a'u hiechyd, a gwneud gwahaniaeth i'n cymunedau.

Mae gan y Cyngor broses benodol ar gyfer prydlesu caeau chwaraeon sy'n cysylltu Ystadau Corfforaethol â Hamdden, Chwaraeon a Pharciau a Chyrff Llywodraethu Campau Cenedlaethol. Mae'r carfanau'n gweithio'n agos gyda'r clybiau chwaraeon trwy gydol y broses gychwynnol o drosglwyddo asedau a thrwy gydol tymor y brydles.

Mae'r dull gweithredu ar y cyd â Hamdden, Chwaraeon a Pharciau, sy'n arwain y gwaith o ddatblygu asedau sy'n gysylltiedig â meini prawf penodol i chwaraeon gan gynnwys cyllid grant, yn caniatáu i'r adran sicrhau ymagwedd gydlynol at y broses.

# Galluogi ein Meysydd Gwasanaeth

I gefnogi meysydd gwasanaeth ledled y Cyngor, bydd y strategaeth yn galluogi ac yn hwyluso trawsnewid gwasanaethau yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol trwy wneud y defnydd gorau o asedau ledled y Cyngor a'r Sector Cyhoeddus ehangach.

## Y Cynllun Gweithlu

Mae Cynllun Gweithlu’r Cyngor 2023-2028 yn cydnabod mai cryfder mwyaf y Cyngor yw ei weithlu, sy’n chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni gweledigaeth y Cyngor ar gyfer Rhondda Cynon Taf fel man lle ***Mae modd i bobl, cymunedau a busnesau dyfu a byw mewn Bwrdeistref Sirol iach, gwyrdd, diogel, bywiog a chynhwysol lle mae modd iddyn nhw gyflawni eu llawn botensial ym mhob agwedd ar eu bywydau a’u gwaith, yn awr ac yn y dyfodol***.

Mae Cynllun Gweithlu'r Cyngor 2023-2028 yn nodi sut byddwn ni'n parhau i ddatblygu a chynorthwyo ein gweithlu i ddiwallu anghenion ein cymunedau.

Mae'r amgylchedd gwaith yn allweddol er mwyn i staff ffynnu a chyflawni'r deilliannau gorau posibl ar gyfer ei drigolion a chymunedau. Ein nod yw meithrin amgylchedd gwaith lle mae staff yn teimlo'n ddiogel, yn rhydd rhag gwahaniaethu ac aflonyddu.

Byddwn ni'n parhau i gefnogi ein staff sy’n siarad Cymraeg, gan ddarparu amgylcheddau lle mae’r Gymraeg yn cael ei hybu ac yn gallu ffynnu.

Rydyn ni am ddenu a chadw gweithlu amrywiol ac rydyn ni'n cydnabod rôl yr amgylchedd gwaith a diwylliant wrth gyflawni hyn.

## Cynllun Gweithle: Addas ar gyfer y Dyfodol

Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y dyfodol ar gyfer ei swyddfeydd yw trawsnewid y swyddfeydd yn fannau gwaith modern, addas i'r diben ar gyfer staff, gan gefnogi adfywio canol trefi a gwella cynaliadwyedd. Rydyn ni'n creu amgylcheddau sydd wedi’u dylunio a’u haddasu i ddarparu lleoliadau gwaith deinamig i wella cyflawniad a chydweithio, gan arwain at fwy o foddhad ymhlith staff a defnyddwyr gwasanaethau, gan wella deilliannau i staff a thrigolion Rhondda Cynon Taf.

Mae’r Strategaeth Swyddfeydd 2023-2030 yn cynnwys pedwar amcan strategol cyflenwol i gyflawni’r weledigaeth yma:

- **Lleihau maint y portffolio swyddfeydd er mwyn sicrhau gwerth drwy greu mannau gweithio hwb hyblyg a mannau cyfarfod corfforaethol.**
- **Creu twf economaidd a budd cymunedol trwy ganolbwyntio ar swyddfeydd yng nghanol trefi. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio mannau a safleoedd gwag i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol eraill, er enghraifft: ysgolion newydd, cyfleusterau Gofal Ychwanegol, a chymorth a chyngor arbenigol.**
- **Cyfrannu at ein targed carbon niwtral**
- **Cefnogi darpariaeth gwasanaeth a bodloni disgwyliadau cwsmeriaid trwy reoli'r portffolio swyddfeydd yn strategol**

O fewn y 12 mis cyntaf o weithredu ei Strategaeth, mae'r Cyngor wedi lleihau ôl troed ei swyddfeydd o tua 39%. Cyflawnwyd hyn trwy adleoli ei bencadlys a Siambr y Cyngor i le gwag yng nghanol canol tref Pontypridd, gan adael Prif Swyddfeydd Gwasanaethau Cymdeithasol Cwm Rhondda, Tonypandy, Rock Grounds Aberdâr a phedwar llawr yn Nhŷ Sardis Pontypridd. Mae wedi gwerthu swyddfa fawr yn Abercynon i’r Heddlu a bydd staff yn gadael yn ddiweddarach yn 2024.

Bydd y rhaglen o resymoli swyddfeydd yn parhau, i adeiladu ar y cynnydd da a wnaed eisoes.

# Gwasanaethau i Oedolion

**Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wella darpariaeth gofal cymdeithasol oedolion trwy foderneiddio llety gyda gwasanaethau gofal i bobl hŷn i fodloni anghenion newidiol ein poblogaeth.**

Mae buddsoddiad mawr wedi arwain at ddatblygu tai gofal ychwanegol yn Aberaman, Pontypridd a'r Porth. Yn 2023, cymeradwyodd y Cyngor fuddsoddiad ychwanegol gwerth miliynau o bunnoedd ar ddatblygu llety gofal newydd ar gyfer pobl hŷn yn Aberpennar, Treorci, a Glynrhedynog ac ar gyfer pobl ag anableddau dysgu ym Mhentre'r Eglwys ac yn y Gelli, a fydd yn disodli adeiladau hŷn ag opsiynau llety mwy modern a hygyrch er budd ein trigolion yn awr ac yn y dyfodol.

Rydyn ni'n parhau i weithio gyda Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg i weithredu model cymunedol effeithiol ac integredig i ddiwallu anghenion y gymuned a lleihau'r pwysau ar wasanaethau aciwt mewn ysbytai. Lle bo modd, byddwn ni'n archwilio cyfleoedd i gyd-leoli staff.

Bydd gweithredu'r Strategaeth Gwasanaethau Oriau Dydd ar y cyd a'r model gweithredu ar gyfer pobl ag anabledd dysgu yn helpu i lunio'r gwasanaethau a gynigir yn y dyfodol i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu trefnu a'u darparu mewn ffordd sy'n cyflawni'r deilliannau unigol gorau posibl i bobl ac yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau'r Cyngor.

Bydd y newidiadau i ddarpariaeth Gwasanaethau Oriau Dydd y Cyngor ar gyfer pobl hŷn yn y dyfodol yn sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i gael eu darparu mewn ffordd sy'n hyrwyddo lles ac annibyniaeth unigolion ynghyd â chefnogi darpariaeth gwasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol a gwneud y defnydd gorau o adnoddau'r Cyngor i gyfrannu at strategaeth gyllidebol y Cyngor.



# Gwasanaethau i Blant

**Mae gan y Cyngor gyfrifoldebau rhianta corfforaethol dros blant a phobl ifainc sydd â phrofiad o ofal, yn unol â Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru, "Addewid i Gymru". Mae'r ymrwymiad yma'n cynnwys sicrhau amgylchedd cartref sefydlog, cyfforddus a diogel yn ystod eu cyfnod mewn gofal ac wrth iddyn nhw drosglwyddo allan o ofal.**

Yng nghyd-destun uchelgais Polisi Llywodraeth Cymru i ddileu elw o'r ddarpariaeth gofal i bobl ifainc sy'n derbyn gofal, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo a mabwysiadu ei Strategaeth Trawsnewid Gofal Preswyl 2022 i 2027 Arfaethedig: Plant Sy'n Derbyn Gofal a chynllun gweithredu a fydd yn helpu'r Cyngor i symud i fodel di-elw o ddarparu gofal preswyl sy'n agos at y cartref, yn unol â Pholisi Llywodraeth Cymru.

Yn unol â'r strategaeth yma, mae'r Cyngor wedi caffael sawl tŷ i ddarparu cartrefi gofal i bobl ifainc sy'n derbyn gofal.

# Addysg

## Nod y Cynllun Strategol Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant 2022-2025 yw 'Darparu tegwch a rhagoriaeth mewn Addysg a gwell lles i bawb'.

**Rhestrir y pum blaenoriaeth strategol isod, ac er y gall yr holl flaenoriaethau gysylltu â Chynllun Rheoli Asedau Corfforaethol y Cyngor, Blaenoriaeth Strategol 5 yw'r mwyaf cyffredin.**

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth Strategol 1** | Datblygu gweithlu addysgol sy'n hynod fedrus, ac arweinwyr sy'n rhagorol ar bob lefel. |
| **Blaenoriaeth Strategol 2** | Rhoi cymorth i ysgolion ddarparu cwricwlwm trawsnewidiol, darpariaeth ddysgu ac addysgu o safon uchel a deilliannau gwell i bawb. |
| **Blaenoriaeth Strategol 3** | Sicrhau tegwch a chymorth i ddisgyblion sy'n agored i niwed a'u teuluoedd. |
| **Blaenoriaeth Strategol 4** | Gwella lles ein disgyblion a'r gweithlu. |
| **Blaenoriaeth Strategol 5** | Cyflwyno amgylcheddau dysgu a gwasanaethau arloesol sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif ar gyfer ein disgyblion a'n cymunedau. |

Er mwyn sicrhau ein bod ni'n cyflawni'r flaenoriaeth strategol yma, byddwn ni'n parhau i gyflawni'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu a byddwn ni'n parhau i fuddsoddi mewn ysgolion i foderneiddio a gwella amgylcheddau dysgu, yn fewnol ac yn allanol, ar gyfer yr holl ddisgyblion a staff, gan gefnogi ysgolion i gyflwyno 'Cwricwlwm i Gymru', galluogi ysgolion i gyflawni'r agenda 'Ysgolion Bro', a sicrhau ein bod ni'n cefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni'r strategaeth 'Cymraeg 2050', yn ogystal â chyflawni amcanion y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, a hynny trwy gyflawni buddsoddiad wedi'i dargedu yn y sector cyfrwng Cymraeg.

Byddwn ni'n parhau i sicrhau bod unrhyw ddiffygion o ran cynnal a chadw adeiladau yn cael eu nodi, rhaglen waith yn cael ei llunio a'i gweithredu, a bod yr holl waith yn cael ei wneud ar sail ragweithiol ac adweithiol, i gydymffurfio â'r blaenoriaethau a nodir uchod ac i sicrhau bod ein hadeiladau ysgol yn aros yn ddiogel, yn dal dŵr ac yn gynnes. Rheolir cynnal a chadw adeiladau drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng yr adran Addysg ac Eiddo'r Cyngor, ac mae manylion y gwasanaethau a ddarperir yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- **Gwasanaeth cynnal a chadw, profi ac arolygu statudol;**
- **Gwasanaeth cynnal a chadw cylchol (wedi'i gynllunio) a thrwsio adweithiol;**
- **Gwasanaeth profion dyfeisiau cludadwy**
- **Cronfa ar gyfer gwaith trwsio annisgwyl ar frys**
- **Gwasanaeth dylunio a rheoli prosiectau adeiladu**

Bydd Rhaglen Foderneiddio Ysgolion y Cyngor yn parhau yn rhan o gynllun buddsoddi tymor hwy, sy'n gweithio tuag at:

- **Dim adeiladau mewn cyflwr gwael yn y portffolio addysg**
- **Sicrhau y caiff prosiectau eu trefnu'n strategol;**
- **Rhagor o lefydd cyfrwng Cymraeg**
- **Gwella cyfleusterau cymunedol a chwaraeon**
- **Darparu gofal plant cofleidiol i ateb y galw**
- **Darparu ysgolion cynhwysol a chwbl hygyrch**

Mae eiddo'r Adran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant yn amrywiol ac yn cynnwys 114 o ysgolion dros 115 o safleoedd ac yn cynnwys amrywiaeth o adeiladau gan gynnwys arddull Fictoraidd, CLASP (Rhaglen Arbennig y Consortiwm Awdurdodau Lleol), unedau parod, ac adeiladau newydd modern a ariennir gan y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.

Mae gyda ni hanes da o ddarparu Ysgolion Bro, cydleoli gwasanaethau, sicrhau ymgysylltiad cryfach â rhieni sy'n gofalu y tu allan i oriau traddodiadol a'r nod yw adeiladu cymunedau sy'n ffynnu, wedi'u grymuso ac yn gysylltiedig. Byddwn ni'n parhau i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol er mwyn sicrhau safonau uchel a dyheadau i bawb.

# TGCh a Digidol

## Mae ein Strategaeth Ddigidol yn anelu at gael sefydliad mwy effeithiol ac effeithlon, un sy'n herio popeth a wnawn i weld a oes modd i ni wneud yn well a gwneud y mwyaf o'r adroddiadau sydd gyda ni'n barhaus. Trwy ddefnyddio technoleg SMART, mae modd i ni gysylltu gwasanaethau ar gyfer mwy o effeithlonrwydd, gan sicrhau datrysiad digidol hawdd ei ddefnyddio a hyblyg ar gyfer anghenion y dyfodol.

Trawsnewidiodd pandemig COVID-19 y ffordd y mae pobl yn gweithio. Mae'r model gweithio hybrid, sy'n cyfuno gweithio o gartref a'r swyddfa, gyda chymorth technoleg a dulliau digidol o gyfathrebu, wedi'i groesawu gan y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn cyflwyno datrysiadau digidol integredig i alluogi rheolaeth fwy effeithlon ac effeithiol o adeiladau, er enghraifft systemau llogi ystafelloedd cyfarfodydd a chadw desgiau, monitro deiliadaeth, rheolaethau diogelwch, ynni, ac offer rheoli amgylcheddol. Trwy dynnu data amser real neu bron yn amser real o ffynonellau newydd technoleg SMART a synwyryddion Rhyngrwyd Pethau (IOT), mae modd i ni greu gwybodaeth busnes a llywio ein darpariaeth ymhellach.

# Tai

## Fel Cyngor, rydyn ni'n wynebu llawer o heriau o ran digartrefedd yn y Fwrdeistref Sirol sydd wedi cynyddu 48% dros y tair blynedd diwethaf.

Fel llawer o awdurdodau lleol eraill ledled Cymru, er gwaethaf cydnabyddiaeth o anaddasrwydd darpariaeth gwely a brecwast, sy’n cyfrif am 70% o’n darpariaeth llety dros dro, rydyn ni'n dibynnu’n bennaf ar y math yma o ddarpariaeth i ddiwallu ein hanghenion llety dros dro.

Mae angen brys i leihau’r ddibyniaeth ar lety gwely a brecwast a datblygu llety dros dro a llety â chymorth newydd sy’n addas ar gyfer arosiadau hwy i bobl sengl ac aelwydydd â phlant, yn enwedig wrth inni golli ein llety ar brydles a oedd yn darparu 18 uned o lety dros dro i deuluoedd a ddarparwyd gan gymdeithas dai leol ym mis Rhagfyr 2023.

Mae'r modd i helpu pobl i fyw'n annibynnol yn y gymuned yn sylfaenol i'n Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai. Mae hyn yn cynnwys dylanwadu ar y cyflenwad o lety addas, yn enwedig llety un ystafell wely i berson sengl y mae galw mawr amdano yn Rhondda Cynon Taf gan gynnwys marchnad rhentu preifat arbennig o gystadleuol.

Fel mater o flaenoriaeth mae angen i ni sicrhau bod pobl sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd yn cael mynediad at y cartref iawn ar yr amser iawn ac yn y lle iawn, bydd hyn yn cynnwys:

a) Adolygu sut y mae modd datblygu a chomisiynu opsiynau llety â chymorth yn y dyfodol i ymateb i’r lefel gynyddol o gyflwyniadau cymhleth gan gynnwys ystyried datblygu prosiectau a reolir ar gyfer unigolion na fyddan nhw'n gallu byw’n annibynnol.

b) Gwella hygyrchedd ac asesu ar gyfer pobl sengl ddigartref, lleihau dibyniaeth ar ddefnyddio llety gwely a brecwast ac ystyried opsiynau i wneud llety dros dro yn fwy cynaliadwy ac addas ar gyfer aros am gyfnodau hirach. Mae hyn yn cynnwys datblygu canolfan asesu.

c) Gwella mynediad i lety yn y sector rhentu preifat drwy'r Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol.




# Adran Adfywio a Datblygu

**Mae adfywio canol trefi yn ganolog i flaenoriaethau'r Cyngor yn ei Gynllun Corfforaethol. Mae'r Cyngor wedi datblygu amrywiaeth o strategaethau ar gyfer canol trefi allweddol y Porth, Aberpennar, Pontypridd ac Aberdâr sy'n briodol i gyfleoedd a heriau'r trefi hynny.**

Mae'r strategaethau'n nodi ystod eang o brosiectau a chyfleoedd buddsoddi, gan gynnwys, datblygu hybiau Cymunedol, datblygu Hwb Trafnidiaeth modern ac Ardal yr Orsaf yn y Porth, adleoli staff y Cyngor i leoliadau yng nghanol y dref, Grant Cynnal Canol y Dref, datblygu Cyfleuster Gofal Sylfaenol Integredig yn Aberpennar ac ailddatblygu safle'r hen Neuadd Bingo a siopau Marks and Spencer/Dorothy Perkins ym Mhontypridd a gwelliannau i eiddo allweddol yng nghanol y dref.

# Hamdden, Chwaraeon a Pharciau

## Fel Cyngor rydyn ni wedi ymrwymo i gynyddu aelodaeth a phobl sy'n denfyddio yn ein canolfannau, caeau a chyfleusterau 3G. Rydyn ni'n anelu at sicrhau mynediad cyfartal i bob aelod o'r gymuned. Rydyn ni'n deall y manteision y mae ffyrdd iach ac egnïol o fyw yn eu cael o ran cynnal lles meddyliol a chorfforol.

Mae'r Cyngor yn gweithredu ystod eang o gyfleusterau hamdden ar 13 o safleoedd, pob un yn cynnig gwasanaeth gwahanol yn seiliedig ar faint yr adeilad a'r cyfleusterau sydd ar gael. Mae'r cyfleusterau'n amrywio o gampfeydd ffitrwydd â chyfarpar da iawn, stiwdios dosbarth pwrpasol, ystod o byllau nofio, sy'n addas ar gyfer nofwyr o bob gallu, neuaddau amlbwrpas, cyrtiau sboncen a mannau cyfarfod.

Mae'r holl gyfleusterau wedi elwa o fuddsoddiad cyfalaf sylweddol dros y 10 mlynedd diwethaf gyda gwelliannau'n cael eu gwneud i gyfleusterau ffitrwydd, stiwdios dosbarth, pyllau nofio ac ystafelloedd newid gan wella'r cynnig i breswylwyr gyda chyfleusterau yn cael eu hystyried yn eang fel rhai o'r cyfleusterau gorau yng Nghymru. Heb os, mae'r buddsoddiad yn y cyfleusterau yma wedi cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r canolfannau a'r trigolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol ac wedi cynyddu aelodaeth fisol y tu hwnt i'r targedau a osodwyd.

Yn 2021 agorodd y Cyngor ei gampfa gyntaf yng nghanol y dref yn Llys Cadwyn, Pontypridd, lle mae'r canolbwynt yn gyfan gwbl ar iechyd a ffitrwydd gyda champfa fawr a 2 stiwdio ddosbarth â chyfarpar da.

Rydyn ni'n parhau i adeiladu ar ei becynnau aelodaeth poblogaidd a datblygiad ei Raglen Dysgu Nofio i Blant, sef un o'r rhai mwyaf yn Ne Cymru sy'n cynnig gwersi mewn 8 cyfleuster am un o'r prisiau rhataf yng Nghymru i rieni.

Mae'r cyfleusterau amlbwrpas yn galluogi'r gwasanaethau i ymateb i newidiadau mewn tueddiadau ffitrwydd ac mae adnewyddu asedau yn parhau i sicrhau y mae modd i'r gwasanaeth ddatblygu wrth i anghenion newid.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn gweinyddu dyraniad yr holl gaeau chwaraeon a chyfleusterau 3G ledled y Fwrdeistref gan sicrhau bod yr asedau yma ar gael i bob clwb a chymdeithas ac yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial. Mae'r awdurdod wedi cyrraedd ei nod o osod cae 3G o fewn 3 milltir i bob preswylydd.

Mae carfan y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i wneud Ymarfer Corff yn gweithio ledled y Fwrdeistref Sirol ac yn cynorthwyo'r cleifion hynny sy'n cael eu hatgyfeirio gan y Meddyg Teulu i wneud ymarfer corff lefel isel mewn amgylchedd cymdeithasol, gan ddatblygu llwybrau 'gadael gofal' trwy ganolfannau hamdden a grwpiau gwirfoddol. Mae'r garfan yn cynnig dosbarthiadau gofal ar y cyd ac mae ganddi raglen pobl hŷn lwyddiannus iawn sy'n gweithredu ym mhob cyfleuster hamdden. Mae'r garfan hefyd yn goruchwylio rhaglen STARS sy'n cynorthwyo trigolion â phroblemau iechyd meddwl penodol.



# Newid yn yr Hinsawdd: Datgarboneiddio

Mewn ymateb i'r ***Argyfwng ar yr Hinsawdd*** a gafodd ei ddatgan gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2019, mae'r Cyngor wedi gosod targed ar gyfer bod yn garbon niwtral erbyn 2030, i gefnogi uchelgeisiau carbon di-garbon Llywodraeth Cymru ei hun ar gyfer y sector cyhoeddus. Yn rhan o'i 'Gynllun Ynni Ardal Leol' (LAEP), mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi ymdrechion ar draws pob sector o gymdeithas Cymru—gan gynnwys y byd academaidd, busnes, diwydiant, a'r trydydd sector—i bontio i ddyfodol carbon isel, gan anelu at allyriadau sero net erbyn 2050.

Mae'r Cyngor wedi cymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Ceir tystiolaeth o hyn trwy gyflwyno nifer o bolisïau/strategaethau newid yn yr hinsawdd gan gynnwys strategaeth y Cyngor, ***Strategaeth Hinsawdd Ystyriol Rhondda Cynon Taf***, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2022, sy'n amlinellu targedau ac ymrwymiadau'r Cyngor ar gyfer y cyfnod 2022-2025, a'i nod yw lleihau allyriadau carbon o fewn y Cyngor a ledled y gymuned. Mae amcanion 2030 y Cyngor yn cynnwys:

- **Bod yn garbon niwtral**
- **Bod yn Fwrdeistref Sirol sydd mor agos â phosibl at fod yn niwtral o ran carbon**
- **Cyfrannu at gyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru i fod yn Sector Cyhoeddus Sero Net.**

Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd y Cyngor ei ***Gynllun Gweithredu Datgarboneiddio Corfforaethol***. Mae'r ddogfen yma'n amlinellu amserlen ar gyfer gweithredu gan gynnwys mesurau'r tymor byr, tymor canolig a hir i leihau allyriadau carbon y Cyngor a rhai'r gymuned ehangach. Mae'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu'n cynnwys pum maes allweddol i ganolbwyntio arnyn nhw, gan gynnwys allyriadau carbon sy'n dod o Drafnidiaeth, Adeiladau, y Gadwyn Gyflenwi, Ynni Adnewyddadwy a Defnydd Tir.

Mae'r Cyngor yn ymgorffori Newid yn yr Hinsawdd yn ei Gynllun Corfforaethol newydd. Nod y Cynllun Corfforaethol yw cyflawni ei bedwar amcan llesiant a gweledigaeth strategol ar gyfer Rhondda Cynon Taf lle mae modd i bob person, cymuned a busnes dyfu a byw mewn Bwrdeistref Sirol iach, gwyrdd, diogel, bywiog a chynhwysol lle mae modd iddyn nhw gyflawni eu llawn botensial ym mhob agwedd ar eu bywydau a'u gwaith, nawr ac yn y dyfodol.

Mae disgwyl i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Ynni Ardal Leol (LAEP) yn hydref 2024, sy'n gam sylweddol ymlaen mewn cynllunio ynni drwy ddarparu fframwaith cynhwysfawr i gefnogi'r newid i ddyfodol datgarbonedig. Mae'r fenter yma'n rhan o ymdrech ehangach i gydlynu cynllunio ynni ledled Cymru, gan sicrhau bod modd i gynlluniau lleol ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd arwain at strategaethau y mae modd eu gweithredu a chyfrannu at ddull cenedlaethol cydlynol o ddatgarboneiddio.

Yn ogystal â'r gwaith strategol a wnaed hyd yma, mae nifer o fentrau gweithredol datgarboneiddio wedi'u cynnal gan gynnwys:

- **135 o osodiadau solar ar asedau'r Cyngor.**
- **Troswyd 100% o oleuadau stryd yn LED arbed ynni.**
- **Rhaglen Lleihau Carbon Blynyddol*:**
  - Cyfanswm y buddsoddiad hyd yma (CRP) £14,232,617
  - Cyfanswm yr arbedion hyd yma (CRP) £3,018,262
  - Cyfanswm gostyngiad CO2 6,674 tunnell CO2e
- **Cerbydau trydan:**
  - Cyhoeddi Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan, Cyflwyno a Chynllun Gweithredu.
  - Lansio'r dudalen we Gwefru Cerbydau Trydan.
  - 43 o gilfachau gwefru cerbydau trydan ar gael ar gyfer gwefru cerbydau'r Cyngor.
  - 170 o faeau gwefru cerbydau trydan ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio.

**Gwybodaeth yn gywir fel roedd hi ym Mai 2024.*

*** Gwybodaeth yn gywir fel roedd hi ym Mai 2024 ac yn cynnwys mannau gwefru cerbydau trydan a osodwyd gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd.*

Rydyn ni'n cydnabod yr heriau sydd o'n blaenau i gyrraedd targed carbon niwtral erbyn 2030 ond rydyn ni eisoes wedi dangos ein hymrwymiad drwy fuddsoddi adnoddau sylweddol i ddatgarboneiddio ein hasedau a byddwn ni'n parhau i wneud hynny drwy gydol cyfnod y cynllun yma.



# Rheoli Cyflawniad ein Hasedau

Er mwyn rheoli ein hasedau yn effeithiol ac yn effeithlon mae angen i ni wybod sut y maen nhw'n gwneud. Rydyn ni'n parhau i wella’r data sydd gyda ni ar gyfer ein sylfaen asedau a fydd yn ein galluogi i ddadansoddi cyflawniad asedau.

Mae mesurau Cyflawniad gwaelodlin yn cael eu datblygu ar hyn o bryd a byddan nhw'n cael eu cwblhau cyn gynted ag y bydd y data cyflwr wedi'i dderbyn ar gyfer y portffolio llawn. Bydd mesurau cyflawniad blynyddol yn dilyn ac yn cael eu hadrodd ddwywaith y flwyddyn i'r Cabinet a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

# Trawsnewid: Herio ein Hasedau

## Mae rheoli asedau effeithiol yn broses ddeinamig, sy'n gofyn am ddata cyfredol, gwerthusiad, adolygiad a chynllunio wedi'i gostio.

Mae angen inni herio ein hasedau ffisegol i sicrhau mai dim ond yr asedau hynny sydd eu hangen sy'n cael eu cadw. Nodau terfynol Adolygu a Herio Asedau yw lleihau costau, nodi asedau y dylid eu cadw i'w defnyddio a/neu fuddsoddi ynddyn nhw, nodi'r rhai nad oes eu hangen mwyach ac y mae modd cael gwared arnyn nhw felly. Mae pob gwasanaeth dal portffolio yn cwblhau Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth (SAMP) blynyddol. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth yn cynnwys manylion cyflwr ac addasrwydd yr adeiladau ar gyfer darparu gwasanaeth, newidiadau a ragwelir i'r gwasanaeth a blaenoriaethau gwasanaeth gydag elfen eiddo. Wrth gynllunio ar gyfer unrhyw newid, mae pob gwasanaeth yn ymgysylltu â'u defnyddwyr gwasanaeth ynghylch pam mae angen i ni newid, sut olwg fydd ar newid, yr opsiynau a'r cyfleoedd yn ogystal â'r rhesymau y tu ôl i unrhyw benderfyniadau a wnawn mewn perthynas â'n gwasanaethau a'n hasedau.

Yn rhan o'r broses Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol, mae pob gwasanaeth yn cael ei bortffolio eiddo presennol ac yn cael ei herio ar addasrwydd a defnydd yr asedau.

Mae asedau nad oes eu hangen mwyach ar gyfer darparu gwasanaeth neu sy'n cael eu tanddefnyddio yn cael eu datgan yn rhai dros ben. Rydyn ni'n cysylltu ag Is-adrannau mewnol y Cyngor i nodi cyfleoedd ar gyfer defnydd amgen o'r ased gan y Cyngor cyn cael gwared ar yr ased i sicrhau derbyniad cyfalaf, defnydd gan ein partneriaid yn y Sector Cyhoeddus neu er budd cymunedol. Mae'r broses yma wedi'i gwreiddio yn Llawlyfr Gweithdrefnau Gwaredu'r Cyngor.

Mae ein Cyngor, fel pob Cyngor arall, o dan straen ariannol sylweddol ac rydyn ni'n parhau i weithio'n galed i ganfod arbedion ledled y Cyngor i gau'r bwlch ariannu.

Mae modd i ni wneud rhagor. Rydyn ni'n cyflwyno proses Adolygu a Herio Asedau mwy cadarn gan sicrhau bod pob ased ffisegol wedi'i brofi'n sylfaenol yn erbyn set gyffredin o feini prawf. Mae ein proses herio amlinellol wedi'i nodi isod.

| Pwrpas Strategol | Cyfleoedd a Risgiau | Arfarnu cyflawniad | Arfarniad Dewis | Ymgynghoriad | Deilliant |
|---|---|---|---|---|---|
| Pam mae gyda ni'r ased? | A oes unrhyw gyfleoedd y gellid eu datblygu? | Pa ddeilliannau ariannol ac heb fod yn ariannol sydd wedi'u cyflawni? | Cydbwysedd cyfleoedd cyflawniad a risgiau | Rhanddeiliaid mewnol | Wedi'i chadw |
| Beth yw ei ddiben strategol | A oes unrhyw rwystrau hysbys i fanteisio ar y cyfleoedd yma | A oes modd meintioli buddion heb fod yn rhai ariannol neu a ydyn nhw'n ansoddol | Pa opsiynau sydd ar gael | Rhanddeiliaid Allanol | Amnewid / ailfodelu / ailddefnyddio |
| Pwy sy'n atebol am ei berfformiad | A oes unrhyw risgiau y gellid eu hwynebu | Beth yw'r costau rhedeg | Beth yw costau a manteision cymharol yr opsiynau yma | Y Gymraeg a Chydraddoldeb | Gwaredwyd (marchnad agored neu Drosglwyddo Asedau Cymunedol) |
| Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl ganddo | Beth yw disgwyliad defnyddiwr y gwasanaeth | Beth yw ffigur y gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni | A oes mwy o risgiau i unrhyw opsiynau | | |
| A yw hyn yn ariannol anariannol neu'r ddau | | Beth yw'r allyriadau carbon blynyddol | | | |
| Sut y byddem ni'n gwybod pan fydd hyn yn cael ei gyflawni | | A oes unrhyw gostau anweledig | | | |
| A ydyn ni wedi ystyried defnyddiwr y gwasanaeth | | | | | |

## Gweithgorau Portffolio Eiddo Gwasanaethau

Cyn pandemig COVID-19, i gyd-fynd â'r Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaeth, sefydlwyd Gweithgorau Portffolio Eiddo Gwasanaeth unigol.

Mae'r gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o'r maes gwasanaeth ac o Gyfarwyddiaeth Eiddo'r Cyngor. Prif bwrpas y gweithgorau yw rhoi arweiniad a chefnogaeth i'r meysydd gwasanaeth wrth reoli pwysau llety gwasanaeth neu faterion yn ymwneud â'r eiddo gweithredol a gwella'r berthynas a chyfathrebu rhwng meysydd gwasanaeth ac Eiddo'r Cyngor.

Bydd y gweithgorau presennol yn cael eu hailsefydlu a'u cyflwyno i bob maes gwasanaeth sy'n dal eiddo. Bydd y gweithgorau yn darparu fforwm i lywio penderfyniadau o dan y broses Adolygu a Herio Asedau.

# Cyflawni a Llywodraethu

Mae llywodraethu da yn sicrhau bod penderfyniadau eiddo yn cael eu gwneud mewn ffordd dryloyw a chynhwysol, gyda phrosesau clir yn dangos sut mae meysydd gwasanaeth, aelodau a chymunedau yn rhan o’r broses gwneud penderfyniadau o ran gofynion asedau.

Mae strwythur llywodraethu cadarn ar waith sy'n rhoi cyfeiriad a thryloywder o ran rheoli asedau eiddo'r Cyngor.

Ar lefel wleidyddol:

- **Mae Cabinet y Cyngor, a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn derbyn adroddiadau ddwywaith y flwyddyn ar gynnydd yn erbyn Dangosyddion Cyflawniad Allweddol a Data Cyflawniad Asedau.**
- **Mae rheoli asedau'r Cyngor o fewn portffolio cyfrifoldeb Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor ac Eiddo'r Cyngor, sy'n cefnogi ac yn herio swyddogion i gyflawni'r amcanion a amlinellir yn y Strategaeth yma.**
- **Mae aelodau'n chwarae rhan lawn yn y broses o wneud penderfyniadau strategol, gan gynnwys defnyddio a gwaredu eiddo nad oes ei angen bellach. Ymgynghorir ag aelodau wardiau lleol yn ystod y broses gwaredu asedau.**
- **Mae angen i'r Cabinet gymeradwyo penderfyniadau rheoli asedau allweddol.**

Ar Lefel Weithredol:

- **Adran Ystadau Corfforaethol y Cyngor sy'n gyfrifol am baratoi a gweithredu'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol, cyflawni camau gweithredu, adrodd ar gynnydd, a chyfrannu at Ddangosyddion Cyflawniad Allweddol a Data Cyflawniad Asedau ac adrodd arnyn nhw.**

Byddwn ni'n creu Bwrdd Rheoli Asedau Corfforaethol (CAMB) newydd, yn cynnwys uwch swyddogion ledled y Cyngor, gan gynnwys yr adran Gyllid. Bydd y Bwrdd Rheoli Asedau Corfforaethol yn cyfarfod bob chwarter a bydd yn sicrhau:

- **Bod asedau eiddo dros ben yn cael eu hailbwrpasu neu eu rhyddhau i'w gwerthu/prydlesu mewn modd amserol.**
- **Nodi cyfleoedd ar gyfer ailddefnyddio eiddo nas defnyddir ddigon.**
- **Adolygu polisïau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli'r portffolio eiddo.**

Byddwn ni'n creu Bwrdd Rheoli Asedau Gweithredol, gan gynnwys rheolwyr gwasanaeth ledled y Cyngor. Bydd y Bwrdd Rheoli Asedau Gweithredol yn cyfarfod bob chwarter i:

- **Sicrhau bod meysydd gwasanaeth yn effeithlon ac yn effeithiol wrth ddefnyddio asedau eiddo trwy adolygu data eiddo a bwrw ymlaen â chamau gwella.**
- **Sicrhau bod Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaeth yn cael eu llunio'n flynyddol.**
- **Trafod materion sy'n ymwneud ag eiddo a cheisio datrysiadau.**

Bydd y Bwrdd Rheoli Asedau Gweithredol yn disodli'r Gweithgor Rheoli Asedau a wasanaethodd fel fforwm i gyfathrebu penderfyniadau eiddo a rhaeadru gwybodaeth am reoli eiddo.

| Cyfadran | Yn cynnwys | Rôl |
|---|---|---|
| **Bwrdd Rheoli Asedau Corfforaethol** | Cadeirydd – Pennaeth Eiddo ac Eiddo Cyfreithiol<br>Swyddogion allweddol o:<br>• Adran Gyllid<br>• Adran Adfywio a Datblygu<br>• Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth<br>• Gwasanaethau Rheng Flaen<br>• Gwasanaethau TGCh a Digidol<br>• Ynni a Lleihau Carbon<br>• Datblygiad Gweithredol<br>• Meysydd Gwasanaeth sydd â phortffolio eiddo yn ôl yr angen | • Yn gyfrifol am gyfeiriad a chwmpas y Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol<br>• Sicrhau bod asedau eiddo dros ben yn cael eu hail-bwrpasu neu eu rhyddhau i'w gwerthu/prydlesu mewn modd amserol.<br>• Nodi cyfleoedd ar gyfer ailddefnyddio eiddo nas defnyddir ddigon.<br>• Craffu effeithiolrwydd asedau eiddo a herio cadw asedau sy'n tangyflawni fel y darperir gan y Grŵp Adolygu a Herio Asedau.<br>• Ystyried achosion busnes ar gyfer ailddefnyddio/rhyddhau eiddo dros ben a gyfeiriwyd gan y Grŵp Adolygu a Herio Asedau<br>• Monitro risgiau a chamau gweithredu i'w lliniaru. Uwchgyfeirio risgiau allweddol i Uwch Reolwyr y Cyngor<br>• Adolygu polisïau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli'r portffolio eiddo |
| **Bwrdd Rheoli Asedau Gweithredol** | Cadeirydd – Uwch Syrfëwr Eiddo – Rheoli Eiddo<br>Swyddogion allweddol o:<br>• Ynni a Lleihau Carbon<br>• Cynnal a Chadw Eiddo'r Cyngor<br>• Cysylltiadau â Gweithwyr<br>• Iechyd a Diogelwch<br>• Uned Gwasanaethau Cymraeg<br>• Gwasanaeth Datblygu Cymunedol<br>• Carfan yr 21ain Ganrif<br>• Meysydd Gwasanaeth sydd â phortffolio eiddo yn ôl yr angen | • Sicrhau bod meysydd gwasanaeth yn effeithlon ac yn effeithiol wrth ddefnyddio asedau eiddo trwy adolygu data eiddo a bwrw ymlaen â chamau gwella<br>• Sicrhau bod Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaeth yn cael eu llunio'n flynyddol<br>• Trafod materion sy'n ymwneud ag eiddo a cheisio datrysiadau<br>• Gwasanaethu fel fforwm i gyfathrebu penderfyniadau eiddo a rhaeadru gwybodaeth ar reoli eiddo |
| **Grŵp Adolygu a Herio Asedau** | Cadeirydd – Uwch Syrfëwr Eiddo – Caffaeliadau a Gwarediadau<br>Swyddogion allweddol o:<br>• Materion Cyfraith Eiddo<br>• Ynni a Lleihau Carbon<br>• Dylunio a Rheoli Prosiectau<br>• Cynnal a Chadw<br>• Cymorth Materion Busnes | • Ymgymryd ag ymagwedd gydlynol a systematig at adolygu portffolio asedau adeiledig y Cyngor<br>• Gwneud argymhellion i'w hystyried gan y Bwrdd Rheoli Asedau Corfforaethol |

| Cyfadran | | Rôl |
|---|---|---|
| **Gweithgorau Portffolio Eiddo Gwasanaethau** | Cadeirydd – Swyddog Eiddo enwebedig<br>• Swyddogion allweddol o'r portffolio eiddo sydd â phortffolio eiddo | • Darparu arweiniad a chefnogaeth i'r meysydd gwasanaeth wrth reoli pwysau llety gwasanaeth neu faterion yn ymwneud â'r eiddo gweithredol<br>• Gwella perthynas a chyfathrebu rhwng meysydd gwasanaeth ac Eiddo'r Cyngor<br>• Darparu fforwm i lywio penderfyniadau o dan y broses Adolygu a Herio Asedau |
| **Gweithgor Gweithredol Swyddfeydd** | Cadeirydd – Pennaeth Eiddo ac Eiddo Cyfreithiol<br>Swyddogion allweddol o:<br>• Cynnal a Chadw<br>• Gwasanaethau TGCh a Digidol<br>• Rheoli Eiddo<br>• Glanhau Cyfleusterau<br>• Goruchwylwyr y Safle | • Cydlynu'r rhaglen o symud swyddfeydd yn unol â'r Strategaeth Swyddfeydd<br>• Cydgysylltu â Chyfarwyddwyr Gwasanaeth i lunio a chytuno ar gynlluniau gofod a lloriau<br>• Cyfathrebu symudiadau swyddfa gyda Chyfarwyddwyr Gwasanaeth a staff allweddol<br>• Casglu ac adolygu data boddhad cleientiaid ar y swyddfeydd a ddarperir i feysydd gwasanaeth. |

Adran

4

# Cynllun Gweithredu Gwaith Rheoli Asedau

# Amcan 1 - Rheoli Asedau ac Eiddo yn Effeithiol

**Rheoli a chynnal a chadw tir ac adeiladau yn effeithlon, yn effeithiol, yn gydweithredol ac yn gynaliadwy**

## Gweithredoedd Strategol

| Rhif y cam gweithredu | Cam Gweithredu | 2024/2025 |
|---|---|---|
| **1S1** | Gweithredu proses Adolygu a Herio Asedau cadarn, gyda threfniadau llywodraethu priodol | Chwarter. 3 |
| **1S2** | Sefydlu Bwrdd Rheoli Asedau Corfforaethol gyda Chylch Gorchwyl i gyd-fynd â'r Strategaeth Rheoli Asedau newydd | Chwarter. 3 |
| **1S3** | Sefydlu Bwrdd Rheoli Asedau Gweithredol gyda Chylch Gorchwyl i gyd-fynd â'r Strategaeth Rheoli Asedau newydd | Chwarter. 3 |
| **1S4** | Adolygu'r Llawlyfr Gweithdrefnau Gwaredu Eiddo | Chwarter. 3 |
| **1S5** | Adolygu ein data sylfaen asedau craidd i alluogi adrodd effeithlon i lywio penderfyniadau | Yn parhau |
| **1S6** | Llunio polisi/gweithdrefn ar gyfer cael gwared ar ddodrefn ac offer dros ben | Chwarter. 4 |

## Gweithredoedd Gweithredol

| Rhif y cam gweithredu | Cam Gweithredu | 2024/2025 |
|---|---|---|
| **1O1** | Cychwyn rhaglen o Adolygu a Herio Asedau Adeiledig | Chwarter. 3 |
| **1O2** | Cychwyn rhaglen i adolygu’r asedau sydd wedi’u categoreiddio fel Gwarged ar y Gofrestr Asedau a’u gwaredu yn unol â Llawlyfr y Weithdrefn Gwaredu | Chwarter. 3 |
| **1O3** | Gwagio Swyddfeydd Bwrdeistrefol Pentre a chael gwared ar ased yn unol â'r Llawlyfr Gweithdrefn Gwaredu | Chwarter. 4 |
| **1O4** | Adnewyddu Prif Swyddfa Gwasanaethau Cymdeithasol Cwm Cynon yn unol â'r Strategaeth Swyddfeydd | Chwarter. 4 |
| **1O5** | Gwagio Tŷ Trevithick, Abercynon | Chwarter. 3 |
| **1O6** | Nodi cynlluniau, comisiynu gwaith a rheoli'r gwaith o gyflawni gofynion statudol a chynnal a chadw wedi'u blaenoriaethu ar gyfer Ysgolion | Parhaus |
| **1O7** | Cefnogi darparu llety gwesty yn hen swyddfa Rock Grounds, Aberdâr gyda phartner datblygu | Parhaus |
| **1O8** | Datblygu cynlluniau datblygu yn y dyfodol ar gyfer safle gwag Tŷ Bronwydd | Parhaus |
| **1O9** | Datblygu cynlluniau ar gyfer y lloriau gwag (2-6) Tŷ Sardis Pontypridd | Parhaus |
| **1O10** | Sicrhau cyfleoedd i wella refeniw’r eiddo ar brydles trwy raglen o adolygiadau rhent wedi’u targedu | Parhaus |
| **1O11** | Cwblhau rhaglen dreigl o Arolygon Cyflwr | Parhaus |
| **1O12** | Chwilio am gyfleoedd ar gyfer cydweithio mewnol i wella'r dyraniad adnoddau ar gyfer cyflawni prosiectau | Parhaus |

# Amcan 2 - Manteisio i'r eithaf ar adfywio a chydnerthedd y gymuned

**Defnyddio tir ac adeiladau i ysgogi datblygiad a thwf ynghyd â chefnogi anghenion cymunedol lleol**

## Gweithredoedd Strategol

| Rhif y cam gweithredu | Cam Gweithredu/targed | 2024/2025 |
|---|---|---|
| **2S1** | Adolygu a gwella'r Polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol | Chwarter. 4 |
| **2S2** | Sefydlu'r Rhaglen Derbyniadau Cyfalaf blynyddol | Chwarter. 1 |
| **2S3** | Adolygu'r Llawlyfr Gweithdrefnau Caffael | Chwarter. 4 |
| **2S4** | Ymgysylltu â'r adran Ffyniant a Datblygu i nodi sut y mae modd i asedau ddylanwadu a bod yn gatalydd ar gyfer newid | Parhaus |
| **2S5** | Datblygu llety gofal newydd ar sail carbon isel, a lle bo'n berthnasol, yn unol â safonau rhagoriaeth BREEAM | Parhaus |

## Gweithredoedd Gweithredol

| Rhif y cam gweithredu | Cam Gweithredu | 2024/2025 |
|---|---|---|
| **2O1** | Datblygu a chyflwyno rhaglen hyfforddi rheoli adeiladau i bob tenant Trosglwyddo Asedau Cymunedol | Chwarter. 4 |
| **2O2** | Cyflwyno rhaglen o waredIadau yn unol â'r Rhaglen Derbyniadau Cyfalaf | Parhaus |
| **2O3** | Cyflwyno'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | Parhaus |
| **2O4** | Caffael safleoedd allweddol i gefnogi Adfywio Canol Trefi wrth i gyfleoedd godi | Parhaus |
| **2O5** | Parhau i gyflwyno Cynlluniau Gwella Canol Trefi, gan gynnwys Gorsaf Heddlu Pontypridd, Hwb Trafnidiaeth y Porth, gwelliannau i borth deheuol Pontypridd | Parhaus |

# Amcan 3 - Lleihau Effaith Amgylcheddol yr Eiddo

**Defnyddio tir ac adeiladau i gyfrannu at darged Carbon Niwtral y Cyngor**

## Gweithredoedd Strategol

| Rhif y cam gweithredu | Cam Gweithredu | 2024/2025 |
|---|---|---|
| **3S1** | Diweddaru polisi yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Diwygiedig ar ddatblygu ynni adnewyddadwy. | Parhaus |
| **3S2** | Cynnal Asesiad Ynni Adnewyddadwy (REA) cynhwysfawr i nodi'r lleoliadau gorau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn ardal Rhondda Cynon Taf megis tyrbinau gwynt a systemau ffotofoltäig (PV) ar y ddaear. | Chwarter. 4 |
| **3S3** | Ymchwilio i grantiau cydweithio i hybu cynhyrchu adnewyddadwy a chryfhau cydweithio. Bydd y Cygnor yn parhau i ddefnyddio cyfleoedd cyllid grant i alluogi datblygiad prosiectau cynaliadwy megis Fferm Solar Coed Elái. | Parhaus |
| **3S4** | Adolygu a diweddaru’r Strategaeth a Chynllun Gweithredu Datgarboneiddio Corfforaethol (23-25) gan edrych ymlaen at 2030. | Parhaus |
| **3S5** | Ysgrifennu polisi sy’n amlinellu’r dull ‘adeilad cyfan’ i wneud y mwyaf o effeithlonrwydd ynni – edrych ar welliannau inswleiddio wrth wneud gwaith arall, ffabrig yn gyntaf, gan ddilyn arfer gorau CIBSE AM17 ar gyfer pympiau gwres. | Chwarter. 4 |
| **3S6** | Gweithio ar y cyd â sefydliadau'r trydydd sector i sicrhau cynaliadwyedd cyfleusterau/lleoliadau cymunedol yn Rhondda Cynon Taf i leihau effaith prisiau ynni cynyddol a gwella effeithlonrwydd ynni. Mae hyn yn cynnwys adeiladau'r Cyngor ar brydles i grwpiau'r trydydd sector. | Parhaus |
| **3S7** | Darparu hyfforddiant i bob rheolwr adeilad/safle, gofalwr a defnyddiwr safle gan ddefnyddio'r Polisi Ynni a'r Canllaw 'Rheolwyr Adeiladau'. Bydd hyfforddiant hefyd yn cynnwys defnyddio SystemsLink i wella adolygu a monitro perfformiad ynni.<br><br>Yn ogystal â hyn, byddwn ni'n diffinio rôl Hyrwyddwr Ynni ac yn ymdrechu i gofrestru rheolwyr safle i'r swydd, gan ddyfarnu atebolrwydd iddyn nhw am y defnydd o ynni yn y safleoedd y maen nhw'n gyfrifol amdanyn nhw. | Parhaus |
| **3S8** | Mwy o ynni adnewyddadwy lleol yn cael ei gynhyrchu o dir neu adeiladau'r Cyngor. | Parhaus |
| **3S9** | Cynyddu'r nifer o Fannau Gwefru Cerbydau Trydan sydd wedi'u gosod yn eiddo'r Cyngor dros y 5 mlynedd nesaf. | Parhaus |

**(Amcan 3 - Lleihau Effaith Amgylcheddol yr Eiddo)**

## Gweithredoedd Gweithredol

| Rhif y cam gweithredu | Cam Gweithredu | 2024/2025 |
|---|---|---|
| **3O1** | Lle bo'n briodol, uwchraddio gweddill y goleuadau aneffeithlon i LED | Parhaus |
| **3O2** | Parhau i archwilio'r potensial ar gyfer prosiectau gwres carbon isel | Parhaus |
| **3O3** | Gosod paneli solar ar doeon pob adeilad addas, gan gynnwys pob ysgol | Parhaus |
| **3O4** | Ystyried gosod mowntiau ar gyfer paneli solar ar doeon sydd â'r cyfeiriad priodol pan mae toeon newydd yn cael eu gosod ar adeiladau, yn barod i osod paneli yn y dyfodol agos | Parhaus |
| **3O5** | Cynyddu'r ynni adnewyddadwy a gaiff ei gynhyrchu o dir neu adeiladau'r Cyngor o waelodlin 2021/22 (2 MW) i 20 MW erbyn 2030 | Parhaus |
| **3O6** | Ymchwilio i opsiynau posibl i ddefnyddio ffynonellau ynni sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys:<br>• Egni geothermol<br>• Prosiectau trydan dŵr | Parhaus |
| **3O7** | Erbyn 2025, pennu targed ar gyfer cynyddu gorchudd coetir mewn modd cynaliadwy trwy'r Prosiect Adfywio Coed Naturiol | Parhaus |

# Amcan 4 - Eiddo Effeithlon a Phriodol

**Darparu'r eiddo iawn, sy'n addas i'r diben, yn y lle iawn, i ddiwallu'r anghenion gwasanaeth presennol a chynllunio ar gyfer y dyfodol, ynghyd â manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd o resymoli a gwaredu tir ac adeiladau**

## Gweithredoedd Strategol

| Rhif y cam gweithredu | Cam Gweithredu | 2024/2025 |
|---|---|---|
| **4S1** | Gwella proses y Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth i ymgorffori egwyddorion Datblygu Cynaliadwy yn llawn | Chwarter. 3 |
| **4S2** | Nodi lleoliad ar gyfer Canolfan Asesu Tai a Llety newydd i leihau dibyniaeth ar Wely a Brecwast | Parhaus |
| **4S3** | Ymgysylltu ac ymgynghori â grwpiau a/neu unigolion i sicrhau bod gwasanaethau yn hygyrch i bawb a bod penderfyniadau eiddo yn cael effaith gadarnhaol o ran hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant a lleihau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol | Parhaus |

## Gweithredoedd Gweithredol

| Rhif y cam gweithredu | Gweithred/targed | 2024/2025 |
|---|---|---|
| **4O1** | Cyflwyno'r Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaeth blynyddol | Chwarter. 3 |
| **4O2** | Dod o hyd i ddatrysiadau tymor byr dros dro i helpu i ateb y galw am lety dros dro | Parhaus |
| **4O3** | Gweithredu systemau monitro deiliadaeth i gael mewnwelediad eiddo i lywio penderfyniadau yn y dyfodol ar y portffolio swyddfeydd | Parhaus |
| **4O4** | Adnewyddu Trem y Ddôl | Parhaus |
| **4O5** | Ailsefydlu Gweithgorau Portffolio Eiddo Gwasanaethau | Parhaus |

# DANGOSYDDION CYFLAWNIAD ALLWEDDOL A DATA CYFLAWNIAD ASEDAU

Bydd Data Cyflawniad Asedau yn cael ei ddatblygu a'i ddefnyddio i olrhain cynnydd/llwyddiant yn ystod oes y Cynllun a bydd data Q yn cael ei ddefnyddio i lywio'r adroddiadau ddwywaith y flwyddyn i'r Cabinet. Bydd y rhestr ganlynol o Ddangosyddion Cyflawniad Allweddol Strategol yn cael ei defnyddio i ddechrau i fesur/adrodd cynnydd ond bydd yn destun newid wrth i raglenni gwaith ddatblygu. Bydd trefniadau sicrhau ansawdd a gwirio priodol yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau cywirdeb yr wybodaeth a gaiff ei hadrodd.

| Rhif y Dangosydd Cyflawniad Allweddol | Disgrifiad o'r Dangosydd Cyflawniad Allweddol/Data Cyflawniad Asedau | Dangosydd Cyflawniad Allweddol/ Data |
|---|---|---|
| 1 | Nifer o Drosglwyddiadau Asedau Cymunedol | Gorau po fwyaf |
| 2 | Nifer y Prydlesau Hamdden | Gorau po fwyaf |
| 3 | Nifer yr Asedau Gwaredegig (Trosglwyddo Prydles a Rhydd-ddaliad) | Gorau po fwyaf |
| 4 | Nifer yr Asedau a gaffaelwyd | Gorau po fwyaf |
| 5 | Derbyniadau Cyfalaf Gwerth gros | Gorau po fwyaf |
| 6 | Gostyngiad mewn Swyddfeydd Gofod Llawr Arwynebedd Mewnol Gros | Gorau po fwyaf |
| 7 | Gostyngiad mewn costau rhedeg | Gorau po fwyaf |
| 8 | Gostyngiad yn yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw | Gorau po fwyaf |
| 9 | Cydymffurfiaeth Asbestos | 95% |
| 10 | Cydymffurfiaeth Legionella | 95% |
| 11 | % yr ystadau adeiledig sydd ag arolygon cyflwr cyfoes | Gorau po fwyaf |
| 12 | Gwell cyflwr ein hasedau | Gorau po fwyaf |
| 13 | Ôl troed carbon blynyddol | Gorau po leiaf |
| 14 | Cyfanswm Arbedion o'r Rhaglen Lleihau Carbon (punnoedd(£) a Co2) | Gorau po fwyaf |
| 15 | Nifer y safleoedd sydd â'r DECs diweddaraf | Gorau po fwyaf |
| 16 | Incwm o Dariffau Cynhyrchu | Gorau po fwyaf |
| 17 | Nifer y gwefrwyr cerbydau trydan sydd wedi'u gosod/dosbarthu ledled y Fwrdeistref Sirol | Gorau po fwyaf |

Bydd rhestr ychwanegol o fesurau perfformiad asedau gweithredol hefyd yn cael ei defnyddio yn ystod oes y Cynllun i sicrhau bod y Dangosyddion Cyflawniad Allweddol Strategol yn cael eu cyflawni.

| Rhif Data Asedau | Disgrifiad o'r Dangosydd Cyflawniad Allweddol/Data Cyflawniad Asedau | Dangosydd Cyflawniad Allweddol/ Data |
|---|---|---|
| 18 | Nifer Cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Asedau Corfforaethol | Dim llai na bob chwarter |
| 19 | Nifer Cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Asedau Gweithredol | Dim llai na bob chwarter |
| 20 | Nifer yr Achosion Eiddo a Agorwyd | Gorau po fwyaf |
| 21 | Nifer yr Achosion Eiddo a gafodd eu cau | Gorau po fwyaf |
| 22 | Nifer yr Achosion Eiddo Cyfreithiol a Agorwyd | Gorau po fwyaf |
| 23 | Nifer yr Achosion Eiddo Cyfreithiol a gafodd eu cau | Gorau po fwyaf |
| 24 | Nifer yr Achosion Cyfreithiol a Gwblhawyd | Gorau po fwyaf |
| 25 | Nifer yr Adolygiadau Rhent sy'n hwyr | Gorau po leiaf |
| 26 | Nifer yr Adolygiadau Rhent a gynhaliwyd | Gorau po fwyaf |
| 27 | Gorchmynion RMTC a gyhoeddwyd (nifer a gwerth) | Gorau po fwyaf |
| 28 | Anfonebau RMTC a dalwyd (rhif a gwerth) | Gorau po fwyaf |
| 29 | Galwadau brys | Gorau po leiaf |
| 30 | Nifer yr eiddo sy'n cael eu glanhau gan y garfan Glanhau Cyfleusterau | Gorau po fwyaf |
| 31 | Nifer y Cyfrifon Ynni | Wedi'i Fonitro'n Fisol |
| 32 | Cyfanswm y buddsoddiad yn y Rhaglen Lleihau Carbon (mewn punnoedd (£)) | Gorau po fwyaf |
| 33 | Cynnydd o ran cyflawni Rhaglen Lleihau Carbon y flwyddyn gyfredol % a phunnoedd (£) | Gorau po fwyaf |
| 34 | Nifer yr Arolygon Ynni a gwblhawyd | Gorau po fwyaf |
| 35 | Cwblhawyd Prosiectau Cyfalaf yn Ymarferol (nifer a gwerth) | Gorau po fwyaf |
| 36 | Adroddiadau Prosiect Cyfalaf Misol wedi'u cwblhau ar amser | Gorau po fwyaf |



Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

# Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol

2024-2030

**52970-34 • Awst 2024**

**Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg.**

RHONDDA CYNON TAF